

Psst.....
Cadwa fön
ddistaw



Psst.....
Keep it
quiet

Ystyrir

Undebau Credyd

fel 'banc y dyn tlawd.'

Er hynny, nid ydynt

yn cyrraedd y rhai tlotaf

Sut y gallwn newid hyn?

Prosiect ymchwil wedi'i ariannu trwy

Gronfa Syniadau Newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru



Sylfaen Cymunedol Cyf

14 Stryd Y Porth Mawr

Caernarfon

Gwynedd LL55 1AG

Telephone: 01286 677117

Email: info@sylfaencymunedol.org

Website: www.sylfaencymunedol.org

May 2011

Crynodeb o'r Ymchwil

Ariennir Canolfan Undeb Credyd Gogledd Cymru yng Nghaernarfon i weithio gyda nifer ychwanegol o bobl yng Ngwynedd a Môn a ystyrir yn eithriedig yn ariannol tra ar yr un pryd, yn gyfrifol am ddod yn gynaliadwy yn ariannol, fel y gellir lleihau cefnogaeth grant. Hyn i gyd ar amser dirwasgiad a chynnydd mewn dyledion drwg mewn undebau credyd a thrangwyddaeth benthyciad yn gyffredinol. Mae'r ysgogiad i gynyddu cynilwyr a benthycwyr yn ymestyn gallu i'r eithaf.

Oddi fewn i'r cyd destun yma, mae'r ymchwil hwn yn nodi model ar gyfer cynyddu'r nifer o aelodau incwm isel oddi fewn i un gymuned benodol yng Nghaernarfon, Gogledd Orllewin Cymru. Fe brofwyd y model yma gyda thrigolion, grwpiau cymunedol ac asiantaethau. Mae'n cynnig templed y gellir ei addasu ar gyfer cymunedau a grwpiau eraill. Fe gynhelir peilot o'r model dros y deunaw mis nesaf.

Mae'r prosiect hwn yn cadarnhau nifer o'r canfyddiadau oddi fewn i gyhoeddiadau ymchwil diweddar ac yn dod i'r canlyniad – er mwyn galluogi undebau credyd i gystadlu gyda benthycwyr carreg drws llog uchel traddodiadol rhaid iddynt flaenoriaethu'r nodweddion canlynol;



Hyblygrwydd, Hygyrchedd, Hwylustod Buddion Cymdeithasol

Yn aml mae'r ymchwil yn codi mwy o gwestiynau nag y mae'n eu hateb yn enwedig yn nhermau gallu'r undebau credyd i ymdopi gyda'r cynnydd yn y baich gwaith angenrheidiol er mwyn cyflawni'r dull llafurddwys yma.

Nid oes atebion rhwydd ar gyfer mynd i'r afael â hyn, mae cyrraedd cymunedau incwm isel yn cynnwys darparu benthyciadau bychan anwarantedig, proses penderfynu cyflym, wedi ei gyflenwi gan bobl cyfarwydd, ddibynadwy, cefnogol a phroffesiynol. Oherwydd ei fod yn ddull llafurddwys gyda chostau uchel efallai nad yw yn ddull ffafriol fel y mae undebau credyd yn ymgeisio i fod yn wasanaeth ariannol cynaliadwy a blaenoriaethu pethau megis lleihau'r gyflogres a rheoli dyledion drwg.

Mae gwasanaeth ariannol cynaliadwy angen nifer uchel o gynilwyr, nifer uchel o fenthyciadau a phobl sy'n talu'r benthyciad yn ôl – cwsmeriaid wedi eu hasesu yn erbyn fforddadwyedd. Defnyddir y llog ar gyfer costau cynnal. Gyda'r cap cyfradd llog ar 2% golyga hyn bod y gorged yn isel ac y bydd yn cymryd rhagor o amser i gynyddu gallu staff ac mae hefyd yn golygu y gwrthodir cwsmeriaid risg uchel oherwydd na ellir codi cyfraddau llog uwch i ymdopi â'r risg yma. Gall y bydd rhai cwsmeriaid yn gorfod dewis troi at fenthycwyr carreg drws ac, oherwydd eu bod wedi cael eu gwrthod unwaith, y byddant hwyrach yn amharod i ymgeisio am fenthyciad am yr ail waith yn y dyfodol.

Nid yw'n ymddangos bod archwaeth i gynyddu'r cap cyfradd llog yn y gornel yma o Gymru oherwydd mai dyma sy'n gwneud yr undeb credyd yn wahanol ac yn estyniad o'i ethos moesegol a'i ymarferiad.

Rydym un ai yn derbyn cyfyngiadau'r symudiad undeb credyd er mwyn cyrraedd y rhai mwyaf eithriedig yn ariannol a gweithio gyda gwasanaethau cyflenwol mwyaf dymunol sy'n codi'r cyfraddau lleiaf e.e. Moneyline Cymru ar oddeutu 47% ARP arferol, neu fod y gwaith yn cael ei ariannu i ymdopi â'r amser angenrheidiol a'r risg o ddyledion drwg.

Yn sgil argyfwng bancio 2007-08, y sinigiaeth bresennol a'r diflastod y mae'r diwydiant yn ei greu a'r lefel uchel o gefnogaeth ariannol sy'n deillio, fe fuasai'n ymddangos yn annheg i beidio darparu lefelau tebyg o gefnogaeth barhaus ar gyfer gwasanaeth ariannol moesegol, fforddiadwy a lleol

Cynnwys

Pam y gwnaethom yr ymchwil?	Tud 1-2
Beth allwn ei ddysgu oddi wrth ymchwil eraill sy'n ymwneud â'r pwnc?	Tud 3 -6
Ble wnaethom yr ymchwil?	Tud 7
Gyda phwy y gwnaethom yr ymchwil?	8 Tud
Sut y gwnaethom yr ymchwil?	Tud 9
Beth a ddarganfuwyd gennym?	Tud 10
Beth a ddarganfuwyd gennym am Peblig ac Undeb Credyd?	Tud 11
Beth a ddarganfuwyd gan drigolion?	Tud 12-14
Ymateb yr Undeb Credyd i argymhellion trigolion ar gyfer newid mewn ymarfer	Tud 15-18
Datrysiadau- y strategaeth.	Tud 19
Canlyniadau	Tud 20
Sut wnaeth y grwpiau cymunedol ymateb?	Tud 21-22
Sut wnaeth yr asiantaethau ymateb?	Tud 23-24
Cyrraedd at gynilwyr incwm canolig a phroffil uchel	Tud 25
Beth sy'n digwydd nesaf?	Tud 25
Casgliad	Tud 26
Cyfeirnod	Tud 27
Atodiadau	Tud 28-39



Pam wnaethom yr ymchwil?

Mae Undebau Credyd yn gyd fuddiannau ariannol ac maent yn darparu cynilion a benthyciadau ar gyfraddau fforddiadwy i'r rhai hynny sy'n rhannu cwlwm cyffredin megis lleoliad, gweithle, galwedigaeth, cysylltiad gwleidyddol neu unrhyw ffurf arall o gydberthynas. Trefnir a chynhelir undebau credyd gan aelodau ac fe ddefnyddir unrhyw arian dros ben ar gyfer budd yr aelodau. Mae 22 o undebau credyd daearyddol ar draws Cymru yn ogystal â rhai eraill wedi eu sefydlu oddi fewn i alwedigaethau eraill megis Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a phartïon gwleidyddol megis Plaid Cymru.

Mae'r mudiad undeb credyd yng Nghymru wedi tyfu'n sylweddol dros y ddeng mlynedd ddiwethaf ac mae wedi derbyn wyth mlynedd o fuddsoddiad cyson trwy arian Ewropeaidd, Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau lleol. Mae undebau credyd bellach yn gwasanaethu pob tref trwy Gymru ac fe all holl ddinasyddion ymuno ag undeb credyd (Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cydweithredol, Caerdydd 2009)

Mae ymrwymiad gwleidyddol i undebau credyd yn amlwg yng Nghymru. Roedd Llywodraeth Llafur- Plaid Cymru wedi ymrwymo i 'gymdeithas deg a chyfiawn' (t26, 2007). Yn benodol mewn termau cynhwysiad ariannol, mae hyn yn golygu sefydlu rhwydwaith o undebau credyd ar draws Cymru, cynyddu eu gallu, y gallu i gynnig rhagor o wasanaethau a chynyddu mynediad at ystod ehangach o bobl (t29, 2007).

Fe ddatblygir hyn oddi fewn i'r ddogfen 'Cymryd pawb i Ystyriaeth' sy'n rhoi strategaeth cynhwysiad ariannol ar gyfer Cymru ac fe ystyrir undebau credyd yn gyfryngol wrth gefnogi un o'r themau craidd o fynediad at gredyd a benthyciadau fforddiadwy ac maent yn chwarae rôl allweddol er mwyn cyflawni'r weledigaeth o 'system ariannol sy'n gweithio'n dda, sy'n gyraeddadwy a chynhwysfawr ar gyfer holl ddinasyddion Cymru, yn cynnwys y rhai hynny sydd ar ymylon cymdeithas' (t8, 2009).

Yn ei adolygiad o fudiad undeb credyd yng Nghymru yn 2009, cydnabu llywodraeth Cynulliad Cymru bod aelodaeth undebau credyd yn parhau yn isel ar 1.82% o'r boblogaeth o'i gymharu â 50% yn yr Iwerddon. Mae ymrwymiad cryf i wasanaethu cymunedau incwm isel a mynd i'r afael â eithrio ariannol a'r angen i ddatblygu dulliau hyblyg a chyfrifol at fenthycy sy'n galluogi aelodau i gael mynediad at y benthyciadau y maent eu heisiau a'u hangen ar gost y gallant eu fforddio' (Crynodeb Gweithredol, 2009).

Awgrymodd Jones yn ei astudiaeth 2002 'Mynediad i gredyd ar incwm isel' nad oedd nifer o gwsmeriaid incwm isel yn defnyddio undebau credyd. Nododd Collard a Kempson (2005) mai'r ffynonellau credyd masnachol a ddefnyddir yn fwy aml gan gartrefi heb enillydd cyflog llawn amser oedd credyd cartref a chatalogau gwerthu trwy'r post. 'ond eu ffynhonnell benthycy mwyaf cyffredin oedd Benthyciadau Cyllidebu Cronfa Gymdeithasol. Ni allai y rhan fwyaf o bobl dan yr amgylchiadau hyn godi rhwng £200-300 mewn argyfwng heb fenthycy, neu gynilo £500 ar gyfer pwrpas arbennig. Roeddent hefyd yn fwy tebygol o fod â hanes credyd diffygiol na'r cartrefi gydag enillydd cyflog llawn amser.' (Crynodeb 2005)



Yng nghyswllt y rhai hynny sy'n defnyddio credyd cartref, credir bod cymaint â phedwar o bob deg yn defnyddio mwy nag un cwmni ar yr un tro. (Kempson, Whyley, Ellison a Jones, 2009).

Darganfu Rowlingson (1994) a Dayson (1999) nad ystyriwyd benthycwyr arian yn ddewis anffafriol yng nghyswllt llawer o ddefnyddwyr ar incwm isel am amryw o resymau. Yn ddiwylliannol ac yn hanesyddol maent wedi bod yn rhan o brofiadau cymunedau dosbarth gweithiol o wasanaethau ariannol dros gyfnod maith. Maent yn cynnig cynnyrch hyblyg-benthyciadau bychan, tymor byr anwarantedig . Mae eu gwasanaethau yn gyfleus, ar garreg y drws ac yn gyraeddadwy, gellir cael benthyciad yn ddi-oed. Maent hefyd yn ateb mwy o ofynion cymdeithasol ar gyfer rhyngweithiad rheolaidd ac yn aml fe ystyrir y casglwyr arian yn ffrindiau.

Wrth wynebu pwysau ariannol dybryd sydd angen datrysiad di-oed, nid yw anfanteision benthyciad ariannol amgen megis cost uchel, y temtasiwn a'r pwysau emosiynol i fenthycia, y risg o fod yn gaeth mewn cylch o ddyled yn bryder blaenoriaethol.

Darganfu Jones (2002) bod amharodrwydd i roi'r gorau i gredyd cartref, golygai dibyniaeth ar gasglwyr bod nifer eisiau cadw eu dewis oherwydd diffyg bodolaeth cyfleoedd eraill. Ymhellach i hyn mae'r berthynas agos rhwng cwsmeriaid a'u casglwyr a'r lefel uchel o fodlonrwydd gyda benthycwyr presennol yn rhwystrau i newid ymarfer ariannol (Kempson, Whyley, Ellison a Jones, 2009).

Yn ddiwylliannol, hanesyddol, ymarferol a seicolegol, mae benthycwyr carreg drws yn aml yn ddewis arferol mewn cymunedau incwm isel ac yn aml nid yw'n ddewis anffafriol. Yn gydamserol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried undebau credyd fel modd o ddiwallu cynhwysiad ariannol.

Tra beirniadir undebau credyd am eu delwedd fel 'banc y dyn tlotaf' yn y rhan fwyaf o achosion nid ydynt yn 'fanc y dyn tlotaf' oherwydd nad ydynt yn cyrraedd y rhai mwyaf eithriedig yn ariannol. (Jones, 2002). Yn eironig mae'r ddelwedd yma 'wedi rhwystro datblygiad y mudiad fel cyfanwaith' (Goth, McKillop a Ferguson, 2006).

Y cwestiwn yw, sut ydym yn newid hyn a sicrhau bod undebau credyd yn ddewis rheolaidd ac atyniadol ar gyfer y rhai hynny sydd ar hyn o bryd y mwyaf eithriedig yn ariannol.

Amcan yr ymchwil yw nodi'r ffyrdd y gall undebau credyd ddod yn ddewis rheolaidd ac atyniadol ar gyfer trigolion sy'n byw mewn cymuned incwm isel penodol yng Ngogledd Orllewin Cymru.



Beth allwn ei ddysgu o ymchwil arall yn ymwneud â'r un pwnc?

Pwy sydd wedi eu heithrio yn ariannol?

Y rhai mewn risg uwch yw'r rhai sy:-



Ar incwm isel



Hawlio buddion prawf modd



Rhai sengl nad ydynt yn bensiynwyr



O gymunedau Pakistan a Bangladesh



Mewn llety ar rent



Neu wedi gadael ysgol cyn un ar bymtheg mlwydd oed



Yn byw yn yr Alban, Cymru neu Llundain Fawr



Yn byw yn un o bum deg o awdurdodau lleol mwyaf difreintiedig yn Lloegr a Chymru

(Kempson a Whyley, 1999)

Nododd Kempson a Whyley (1999) y ffactorau sy'n gwahardd defnydd o wasanaethau ariannol prif ffrwd megis diffyg swydd ddiogel, bod â rhieni nad ydynt yn defnyddio gwasanaethau ariannol a byw mewn cymunedau ymylol.

Beth fuasai benthycwyr incwm isel yn hoffi?

Gan gytuno gydag ymchwil blaenorol cred Collard a Kempson (2005) bod pobl ar incwm isel eisiau lleihau'r tebygrwydd o ddiffygdalu ac mai hyn sy'n hysbysu a symbylu eu rhestr o anghenion credyd:

- benthyciadau bychan, anwarantedig tymor penodol mewn arian parod
- mynediad cyflym i gredyd heb weithdrefnau ymgeisio hirfaith neu ymwithiol a lefel o sicrwydd y byddant yn derbyn yr arian
- taliadau wythnosol fforddiadwy heb gostau ychwanegol neu guddiedig a hyn yn bwysicach na chyfanswm cost credyd.
- Trefniadau ad-dalu awtomatig megis didyniad o fudd dal neu ymweliadau i'r cartref gan gasglwr
- Cyfleoedd i wneud taliadau hwyr neu ail drefnu benthyciadau heb achosi costau ychwanegol pan fo problemau ariannol dros dro yn codi.

Nid oedd costau am daliad cynnar benthyciad yn bryder nac ychwaith enw'r cwmni yn darparu'r gwasanaeth. Y peth pwysicaf oedd cynefindra gyda'r benthycwyr a chymeradwyaeth neu gyflwyniad i'r gwasanaeth.

Yn eu hymchwil 2001 darganfu, Collard, Kempson a Whyley trwy ymgynghori â grwpiau incwm isel ei fod yn ddyhead gan bobl i gynilo, ond yn aml roedd yr angen i fenthyca'n bodoli. Roedd diddordeb mewn cynilo oedd yn ei gysylltu i fenthyca gyda mynediad at fenthyciadau cost isel, ond yn aml 'roeddent yn angen torri'r cylch o fenthyca gan fenthycwyr cost uchel er mwyn cychwyn cynilo' (Collard, Kempson a Whyley, 2001). Roedd llawer o ddiddordeb mewn 'prynu allan dyled' ble y byddai'r undeb credyd yn talu'r benthyciadau gan fenthycwyr drws-i-ddrws, a diddordeb mewn derbyn gwasanaethau ariannol a chefnogaeth trwy siop-un-safle'.

Yn anad dim mae cwsmeriaid incwm isel angen gwasanaethau ariannol sy'n ariannol ddiogel, dibynadwy ac yn deall eu hanghenion' (Kempson a Whyley, 1999).



Rhoi benthg i gwsmeriaid incwm isel

Dywed *Collard a Kempson (2005)* bod benthycwyr incwm isel mewn risg uwch o ddiffygdalu oherwydd bod eu hamgylchiadau yn llawer mwy tebygol o newid. Mae'r gost o roi benthg i gwsmeriaid incwm isel yn uchel oherwydd bod gwell ganddynt daliadau arian parod wythnosol a'u bod yn benthgca symiau bychan dros gyfnodau byr. Nid yw'r Banciau a'r Cymdeithasau Adeiladu yn awyddus i roi benthg i'r grŵp yma, mae benthycwyr carreg drws yn pasio'r gost uchel i gwsmeriaid ac mae benthycwyr nid-am-elw angen cymorthdaliadau.

Maent yn dadlau 'mai'r allwedd i roi menthyg i fenthycwyr incwm isel yw asesu a rheoli'r risg i ddiffygdalu. Golyga hyn recriwtio gofalus, casglu ad-daliadau mewn ffyrdd sy'n isafu'r risg o fethu talu ac ail fenthyciadau i dalu costau sefydlu' (*Collard a Kempson, 2005*). Mae argymhelliad llafar gwlad yn denu'r cwsmeriaid mwyaf dibynadwy.

Mae Collard a Kempson (2005) yn nodi nodweddion allweddol llwyddiant benthycwyr carreg drws wrth asesu a rheoli risg:-

-  asesiad wyneb i wyneb o gwsmeriaid arfaethedig – gosod swm ad-daliad y gall cwsmeriaid ei fforddio a phenderfynu pa un ai i roi benthg ai peidio
-  defnyddio benthyciad bychan 'ar dreial'
-  monitro gallu cwsmeriaid newydd i gynnal taliadau 10-15 wythnos
-  cofnodi'r nifer o feth daliadau
-  cofnodi sawl gwaith y mae asiant wedi gorfod galw cyn casglu'r ad-daliad yn llwyddiannus

Mae sgrinio wyneb i wyneb a monitro ad-daliadau yn ychwanegu at gostau rhoi benthg. Mae casglu yn y cartref, fel ffordd o gasglu taliadau, asesu potensial i'r dyfodol, sicrhau parhad busnes, gwerthu cynnyrch newydd, casglu ôl ddyledion, ail amseru benthyciadau heb ychwanegu costau wedi profi'n llwyddiannus yng nghyswllt benthycwyr carreg drws gyda'r costau'n cael eu cynnwys yn y costau cyfraddau llog uwch.

O dan Ddeddf Undebau Credyd 1979, ni allasai undebau credyd godi llog ar fenthyciadau ar gyfradd uwch na 1% y mis (ARP 12.7% CCB arferol). Mae'r ddeddf hefyd yn rhoi grym i Drysorlys EM i ddiwygio'r cap yma trwy ddefnyddio deddfwriaeth eilaidd. Fe ddiwygiwyd hyn yn 2005 ar gyfer yr undebau credyd hynny yn derbyn grantiau trwy Gronfa Twf Cynhwysiad Ariannol Adran Gwaith a Phensiwn ar gyfradd uwch na 2% y mis (ARP 26.8% arferol). Fel pwynt gwerthu unigryw, mae hyn yn ddull hyrwyddo defnyddiol yn genedlaethol. Fodd bynnag nid yw'n caniatáu i undebau credyd gynyddu eu cyfraddau llog i ddiogelu'r cwsmeriaid hynny sy'n ymddangos yn risg uchel ac fe allasai sicrhau eu bod ynghlwm i fenthycwyr carreg drws.

Yn ôl Llywodraeth Cynulliad Cymru, nid oes ymgyrch cyfredol ymysg y sefydliad undebau credyd i godi'r cap cyfradd llog.

Fe ymgymeryd ag astudiaeth yn 2009 i geisio profi dichonoldeb masnachol gwasanaeth credyd cartref nid-am-elw. (*Kempson, Whyley, Ellison a Jones, 2009*). Fe addaswyd y model busnes a'r profiad gweithredu a ddefnyddiwyd gan ddarparwyr masnachol ganddynt i fodel cymdeithasol gan amcangyfrif adennill costau mewn deng mlynedd. Daethpwyd i'r casgliad mai hyd yn oed ar sail nid-er-elw i wneud y gwasanaeth yn gynaliadwy yn ariannol, byddai cost credyd cartref yn uchel. Gyda chymohrthdal o £18 miliwn dros 10 mlynedd y APR ar gyfartaledd benthyciad £288 56-wythnos fyddai 123% (o'i gymharu â 183% yn fasnachol), gan ddod â chynilion cwsmer o £50.



Gyda chymhorthdal o £90 miliwn dros ddeng mlynedd, gellir lleihau'r APR i 100% gan gynyddu cynilion i £72 fesul benthyciad. Maent yn dod i'r casgliad mai dyhead cyfyngedig yn unig oedd gan fenthycwyr trydydd sector presennol i gynnig y gwasanaeth ac ymddangosai mai darparwr arunig oedd yn cynnig y dewis gorau.

Datrysiadau strategol i gredyd cost isel

Mae Collard a Kempson (2005) yn dadlau y gellir cyflawni credyd fforddiadwy ar gyfer cartrefi incwm isel trwy ystod o ddulliau:-

- ehangu'r Gronfa Gymdeithasol
- lleihau'r gost o gredyd masnachol
- ad-daliadau benthyciadau awtomataidd- trwy ddidyniad uniongyrchol o fudd daliadau fel gyda'r Gronfa Gymdeithasol neu system debyd uniongyrchol diwygiedig a fyddai'n sbarduno taliadau wrth dderbyn cyflogau neu fudd daliadau i gyfrifon banc neu gymdeithas adeiladu, trwy ail adrodd didyniad uniongyrchol cychwynnol.
- Mae gan undebau credyd rôl i chwarae os ydynt yn cael eu rhedeg yn broffesiynol ac os ydynt yn fwy o ran maint.
- Cynlluniau benthyciadau cymunedol, rhanbarthol wedi'u cynnal mewn partneriaeth gyda'r banciau.

Undebau credyd fel rhan o'r datrysiad

Mae Milton (2008) yn cytuno fod benthycwyr undebau credyd a thrydydd sector yn rhan o'r datrysiad wrth fynd i'r afael â eithrio ariannol, ond oherwydd na allant roi benthg i gwsmeriaid risg uchaf, dylai rôl y Gronfa Gymdeithasol gael ei monitro a'i goruchwylio gan Adran Gwaith a Phensiynau. Mae Milton hefyd yn credu y dylai'r undebau credyd a gwasanaethau ariannol eraill ymgynghori gyda'r rhai sydd wedi eu heithrio yn ariannol wrth gynllunio eu gwasanaethau er mwyn bod yn effeithiol a sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu deall a'u diwallu a bod yr holl wybodaeth cwsmeriaid yn eglur, syml a dealladwy.

Mae adnoddau megis amser, teithio, swyddfeydd allanol, nifer y mannau casglu, costau hyfforddi yn cynyddu yng nghyswllt undebau credyd gwledig ac fe allasai effeithio ar ddichonoldeb yn y tymor hir gyda'r angen hwyrach am gymhorthdal ychwanegol. (Barker, 1995).

Er mwyn i undebau credyd fod yn ddichonol yn y tymor hir, mae'n bwysig eu bod yn denu croes doriad o bobl o gymunedau lleol, nid ond y rhai sydd ar incwm isel ac wedi eu heithrio yn ariannol (Goth, McKillop a Ferguson, 2006, Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd) Ystyrir twf aelodaeth yn allweddol i ddichonoldeb ariannol fel y mae cynyddu benthyciadau a datblygu dulliau hyblyg i roi benthg sy'n galluogi aelodau i gael y benthyciadau y maent eu heisiau a'u hangen ar gost y gallant ei fforddio (Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd 2009) Mae adolygiad 2009 yn cydnabod y tensiwn rhwng rôl sefydliad yr undeb credyd i hyrwyddo cynhwysiad ariannol a'i angen i foderneiddio a phroffesiynoli a sicrhau gwasanaeth safonol personol, wedi ei seilio yn y gymuned. Ymddengys hefyd bod lefelau tramgwyddaeth a dyledion drwg wedi codi yn y blynyddoedd diweddar ac fe all hyn gael rhagor o effaith yng Nghymru fel y mae'n ymdrechu i ddod allan o'r dirwasgiad.

Mae'r Adolygiad yn ystyried ffactorau llwyddiant critigol ar gyfer sefydliad yr undeb credyd fel:-

- ☀ lefelau uchel o ymddiriedaeth rhwng undebau credyd a chymunedau
- ☀ lefelau uchel o aelodaeth o'i chymharu â maint y cwlwm cyffredin
- ☀ canolbwyntio ar roi benthg yn ogystal â chymryd blaendaliadau
- ☀ datblygiadau polisi trwy ddull canolbwyntio ar gôl
- ☀ agwedd broffesiynol ac entrepreneuriaidd ymysg rheolwyr undebau credyd



- ☀ Mae undebau credyd wedi derbyn arian sylweddol yn ystod y blynyddoedd diweddaraf er mwyn cynyddu gallu a chyrhaeddiad. Mae Cronfa AGPh yn cyrraedd ei diwedd estynedig yn 2011
- ☀ Mae'n amheus pa un ai y gall undebau credyd sy'n darparu benthyciadau ar gyfer y rhai sydd wedi eu heithrio'n ariannol yn y lle cyntaf, ddod yn gynaliadwy heb gefnogaeth allanol
- ☀ Ar y cyfan, mae proffidioldeb y mudiad wedi lleihau dros y blynyddoedd diweddar
- ☀ Mae tramgwyddaeth benthyciadau yn broblem gynyddol - y broblem gyfartalog yn codi o 2-4% dros gyfnod o bum mlynedd 2003-2008 gyda rhai undebau credyd yn gwneud darpariaeth o 20% a mwy o'u llyfrau cyfanswm benthyciadau yn 2008. Gall bod cynnydd mewn dyled drwg yn dynodi lleihad yn y nifer o undebau credyd i'r dyfodol.
- ☀ Mae undebau credyd wedi profi cyfnod o gyfuno yn y blynyddoedd diweddar yn y DU ac fe allwn ddisgwyl cyfnod o gydgyfnerthiad pellach.
- ☀ Yn dilyn argyfwng bancio 2007-2008, mae yna ddiddordeb adnewyddol yn rôl y cyd feddianwyr yn y byd ariannol, ac erbyn hyn mae gan bump o'r undebau credyd mwyaf lyfrau benthyciadau sy'n fwy na rhai'r gymdeithas adeiladu leiaf- Century yng Nghaeredin. Fe nodweddir y rhain yn bennaf gan alwedigaeth a chyflogaeth yn hytrach na ffocws cynhwysiad ariannol
- ☀ Mae datblygiad sefydliad yr undeb credyd yn y DU wedi ei arwain gan bolisi a rheolaeth.

Mae'r adroddiad yn argymhell y bydd:-

- ☀ Cynladwyedd ariannol angen cefnogaeth allanol dros y degawd nesaf os yw i'w gyflawni
- ☀ Gall rhannu gwasanaethau cefn swyddfa a hyrwyddir gan gynorthwyo i ymatal costau mewn modd cyfyngedig
- ☀ Dylai bod trafodaeth oddi fewn i'r mudiad ynglŷn â diddymu'r cap cyfradd llog.
- ☀ Mae angen data ariannol mwy diweddar i reoli'r risgiau sy'n wynebu'r sector. Bydd cydnabod y trefniadau adrodd yn ôl newydd y mae'r rheolydd yn bwriadu eu cyflwyno yn y dyfodol o gymorth i hun.

'Yn sylfaenol, mae darpariaeth leol o ariannu fforddiadwy ar gyfer yr hyn sydd yn sail cleient risg uchel yn weithrediad cost uchel ac fe fydd gallu undebau credyd i barhau i ehangu eu gwaith cynhwysiad ariannol yn cael ei herio'n ddifrifol gan y posibilrwydd o ansicrwydd amgylchedd gweithredu yn ystod y degawd nesaf' (*Hope, t5*).



Ble wnaethom yr ymchwil?

Seiliwyd yr ymchwil yn Ward Peblig, Caernarfon, Gwynedd, Gogledd Orllewin Cymru. Mae'n ward Cymunedau yn Gyntaf - yr 82fed ardal dlotaf yng Nghymru yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2008.

Mae Peblig yn ystâd fawr yn cynnwys oddeutu 1000 o dai a phoblogaeth o 2,300. Mae'n ystâd dosbarth gweithiol gyda chanran uchel o siaradwyr Cymraeg a nifer uwch na'r cyfartaledd o blant a phobl ifanc. Mae'r adnoddau yn cynnwys canolfan gymunedol, tŷcymunedol, dwy eglwys, ysgol gynradd gymunedol newydd sydd ar fin agor, yn ogystal lleolir llys troseddol sirol a chartref gofal plant ar y ward. Wedi ei lleoli ar gyrion Caernarfon gellir cerdded o'r ystâd i mewn i ganol y dref ac mae gwasanaeth bysiau da yn bodoli.

Mae gan Peblig 7.8% yn hawlio Lwfans Chwilio am Waith, o'i gymharu â 3.8% yn genedlaethol (Prydain Fawr). Mae'r ffigwr yma wedi bod yn gyson dros ddegawdau. Mae 41% o'r hawlwr yn 18-24 mlwydd oed, o'i gymharu â 28% yn genedlaethol. Mae dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol yn hawlio budd dal analluogrwydd ar 15%. Mae 5.4% o'r hawlwr yn rhieni sengl o'i gymharu â 1.7% yn genedlaethol a dwywaith y cyfartaledd cenedlaethol o ofalwyr. Seilir y ffigyrau hyn ar ffigyrau 2010/2011 trwy Swyddfa Ystadegau Marchnad Lafur Swyddogol Yn ol y Cyfrifiad 2001, nid oes gan 42% o oedolion oed gwaith gymwysterau addysgiadol.*

Mae gan y ward dîm Cymunedau yn Gyntaf bychan wedi ei leoli mewn tŷtrawsnewidiedig yr awdurdod lleol. Mae'r tîm wedi datblygu ymatebion cymunedau'n gyntaf i ystod o faterion gwahanol dros y blyneddau diweddar:

-  Gweithgareddau ieuenctid
-  Cydweithfa bwyd
-  Prosiect mentora ar gyfer rhai 16-25 mlwydd oed
-  Datblygiad gofal plant
-  Yr iaith Gymraeg fel llwybr i gyflogaeth
-  Cymhorthfa rheolaeth ariannol a dyled

Mewn prosiect ymchwil gweithred i ddyled yn ward Peblig 'Mae'r Fan yn y Stryd' gan Sylfaen Cymunedol Cyf yn 2009, canfuwyd bod 80% o'r rhai a gyfwelwyd (455 o gartrefi) yn credu bod dyled yn broblem ar y ward a theimlai'r atebwyr mai'r dyledion mwyaf cyffredin oedd y rhai hynny yn berthnasol i fenthycwyr arian amgen yn enwedig Credyd Personol Provident.

Fel rhan o'i ymateb i'r mater, derbyniodd tîm bychan o wirfoddolwyr hyfforddiant trwy Grŵp Gweithred Tlodi Plant ar Ymdopi â dyled ac maent yn cynllunio i sefydlu cymhorthfa yn y tŷ cymunedol ble y byddant yn cefnogi trigolion i ddechrau rheoli eu dyled trwy gasglu'r wybodaeth berthnasol a'u cefnogi i gyrchu at gefnogaeth cyngor dyled arbennig trwy sefydliadau megis CAB, Undeb Credyd, Shelter Cymru ac asiantaethau eraill fel yn briodol.

Roedd y Tîm Cymunedau yn Gyntaf yn awyddus i fod yn rhan o'r prosiect ymchwil yma fel modd o gychwyn herio trechedd y benthycwyr carreg drws ar y ward a rhoi cychwyn ar newid y diwylliant traddodiadol o ddefnyddio y benthycwyr llog uchel fel tueddiad.

*Fel nodir mae'r ffigwr yma yn ymddangos yn y Cyfrifiad 2001 ac efallai bydd hyn yn newid gyda chanlyniadau'r Cyfrifiad 2011



Gyda phwy yr oeddem yn gwneud yr ymchwil?

Ymgwymerwyd yr ymchwil gan Undeb Credyd Y Llechen a sefydlwyd yn 2000, fe agorodd ei ddrysau i'w brif swyddfa am y tro cyntaf yn 41 Stryd y Llyn ym mis Chwefror 2002. Yn wreiddiol yn gweithio yng Ngogledd Gwynedd, estynnodd ei gwlwm i weithredu yn ne'r sir ac Ynys Môn yn y blynyddoedd canlynol, gan newid ei bwyslais o ddarpariaeth drefol i un gwledig, ac ym mis Rhagfyr 2010 fe gyfunodd a phedwar undebau credyd eraill i ffurfio Undeb Credyd Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2011.

Mae gan y Swyddfa sy'n gyfrifol am Ynys Môn a Gwynedd ddau weithiwr llawn amser cyflogedig o hyd a nifer o wirfoddolwyr sy'n rhedeg y swyddfa a nifer o fannau casglu o Gaergybi i'r Bermo yn ogystal â chynrychiolaeth ar Bwyllgor Rheoli Undeb Credyd Gogledd Cymru.

Yn ei GCB ar 23 Tachwedd 2010 y diwethaf cyn y cyfuniad roedd Y Llechen mewn 'safle cyffredinol llawer gwell' gydag incwm a throsiant blynyddol ar i fyny, lleihawyd dyledion drwg ac fe gytunwyd i dalu rhandal o 1.5% i aelodau oherwydd na thalwyd cyfranddaliad yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r Llechen er amser wedi pryderu ynglŷm ag effaith benthycwyr carreg drws ar gymunedau incwm isel fel y tystir yn yr adran isod a ddyfynnwyd o Adroddiad Pwyllgor Credyd – Hydref 2009-Medi 2010 a gyflwynwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol olaf ym mis Tachwedd 2010.

'Mae benthycwyr carreg drws yn realiti ac yn ddewis drud (APR 189.2% arferol) a ddefnyddir gan nifer o bobl oddi fewn i'n hardal cwlwm cyffredinol. Dyma un maes ble gydag addysg a'ch cymorth chi (ar lafar gwlad) rydym yn gobeithio, na, yn hytrach rydym yn bwriadu gwneud gwahaniaeth. Roedd un ymgeisydd yn aelod o Undeb Credyd Y Llechen a oedd wedi codi eu cyfranddaliadau i roi benthycwyr i berthynas teulu mwy anghenus. Roedd wedi gwrthod benthycwyr carreg drws drudfawr fel canlyniad i brofiad blaenorol. Gan wybod nad oedd ganddo/hi ddigon o gyfranddaliadau roedd wedi talu £25 i gwmni sy'n gweithredu ar y rhyngwrdd i ymchwilio i'r posibiliadau benthycwyr gorau er mwyn benthycwyr swm o £500. O'r holl ddewisiadau a awgrymwyd y Provident oedd y drytaf (dewis yr oedd yr ymgeisydd wedi ei ystyried yn gynharach) hyd nes y cyfrifwyd cyfanswm yr ad-daliadau ar gyfer yr aelod. Y dewis gorau ar gael oedd yr Undeb Credyd, y dewis a argymhellwyd.'

Mae'r Llechen wedi gweithio'n gyson gyda gwahanol bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac roedd yn awyddus i weld sut y gellid gwella neu newid ei ymarfer er mwyn cyrraedd y trigolion hynny nad oeddent yn defnyddio eu gwasanaeth ar hyn o bryd.

Fel rhan o Undeb Credyd Gogledd Cymru, mae erbyn hyn y mwyaf yng Nghymru gyda £4.5 miliwn mewn asedau a 9,750 o aelodau.



Sut y gwnaethom yr ymchwil?

Ymgymrwyd y prosiect graddfa fechan yma gan Val Williams, gweithiwr datblygu cymunedol ac ymchwilydd gyda Sylfaen Cymunedol Cyf, cwmni elusennol datblygu cymunedol bychan sy'n arbenigo mewn hyfforddi, ymchwil wedi'i arwain gan y gymuned a datblygu prosiect.

Trwy gydol yr amser mabwysiadwyd dull cyfranogol wrth weithredu'r prosiect gyda'r bwriad o ddatblygu model er mwyn cynnal peilot yn y dyfodol.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys:

- ☀ Adolygiad llenyddiaeth
- ☀ Cyfweiliadau gyda deg o drigolion Peblig a weithredodd fel grŵp ffocws fel yr oedd y gwaith yn datblygu
- ☀ Cyfweiliadau gyda Y Llechen/Undeb Credyd Gogledd Cymru a phresenoldeb mewn gwahanol gyfarfodydd e.e. CCB, CCB arbennig, fforwm lleol.
- ☀ Cyfweiliadau gyda Cymunedau yn Gyntaf a phresenoldeb yn ystod digwyddiadau i ymdrin â'u hyfforddiant dyled
- ☀ Profi syniadau gyda grwpiau cymunedol ac asiantaethau
- ☀ Datblygu'r model a thempledi cysylltiedig
- ☀ Sefydlu grŵp i gynnal peilot o'r model
- ☀ Sefydlu modd o adrodd yn ôl pan fo'r peilot wedi'i gwblhau

Ymgymrwyd â'r ymchwil rhwng Hydref 2010 ac Ebrill 2011, er y bydd gweithrediad y model yn cymryd lle dros ddeunaw mis hyd Haf 2012.

Fel aelod o undeb credyd ers 2003 roedd gan yr ymchwilydd gysylltiadau da gyda'r sefydliad. Oherwydd iddi fod yn weithiwr cymunedol yn yr ardal dros yr ugain mlynedd diwethaf, roedd ganddi gyd berthynas dda gyda llawer o sefydliadau cymunedol ac asiantaethau statudol yn ardal Caernarfon ac oherwydd iddi dreulio amser yn ward Peblig yn cynnal hyfforddiant ac ymgymryd ag ymchwil arall roedd ganddi gysylltiad cadarn gyda'r gymuned a'i haelodau. Roedd hyn yn cynorthwyo mynediad at unigolion a safon yr wybodaeth a rannwyd.

Mae'r adroddiad hwn ym rhoi manylion y broses o ddatblygu'r model a'r templedi.



Beth a ddarganfuwyd gennym?

Yr hyn y mae darparwyr credyd cartref yn ei wneud yn dda a sut y mae undeb credyd yng Nghaernarfon yn cymharu.

Cryfderau darparwyr credyd cartref masnachol	Sut y mae'r Undeb Credyd yng Nghaernarfon yn cymharu
Cynnyrch hyblyg – darpariaeth symiau bychan o arian, anwarantedig dros gyfnod byr	Dros y blynyddoedd mae'r Undeb Credyd yng Nghaernarfon wedi gweithredu polisi o ofyn i aelodau gynilo am 13 wythnos cyn gofyn am fenthyciad am ddwywaith swm y cynilion ar raddfa APR 12.7%. Yn 2010 newidiodd hyn a rwan mae'r polisi i gynnig benthyciadau mynediad di-oed cyn belled â bod yr aelod yn gallu dangos eu bod yn gallu eu fforddio Mae'r benthyciadau mynediad di-oed fel arfer ar gyfradd uwch 26.8% GCP. Gyda tharged i roi benthyciad £36,000 yn y chwarter cyntaf cyflawnwyd £101,000 gwerth benthyciad. Gwerth benthyciad gwerth cyfartalog yn cynyddu o £750-£1500. Nid yw'r newid mewn polisi yma yn hysbys yn lleol ac mae gan y sefydliad ddelwedd o fod yn wasanaeth cynilo.
Proses cyraeddadwy – proses anymwthiol lle mae cwsmeriaid yn seilio'r hyn y gallant ei dalu'n ôl ar yr hyn y gallant ei fforddio i'w dalu bob wythnos ac fe benderfynir yn aml yn y fan a'r lle.	Eto ers 2010 apwyntiad dau weithiwr newydd– Alastair Wilkinson a Alistair James – mae'r broses wedi gwella'n arw. Gydag o leiaf pedwar swyddog wedi eu hyfforddi fel swyddogion benthyciadau, gwneir penderfyniadau yn gyflymach na phan oedd y pwyllgor benthyciadau'n gweithredu. Gall un swyddog benthyciadau benderfynu ar fenthyciad hyd at £500, dau hyd at £1,000 a'r ddau swyddog cyflogedig hyd at £2500 yr un. Mae swyddog benthyciadau yn gweithredu yng ngogledd a de'r sir. Rhaid cwblhau ffurflen sy'n rhoi manylion incwm a gwariant a phan fo aelod yn gwneud cais am fenthyciad am y tro cyntaf, fe'i cyfwelir wyneb i wyneb. Fe flaenoriaethir ceisiadau yn ddyddiol ac fe ymdrinnir â cheisiadau argyfwng yn gyntaf. Mae oriau agor erbyn hyn yn gyson Dydd Llun i Ddydd Gwener 10-3pm. O bryd i'w gilydd wrth siarad gyda gwirfoddolwyr, roeddent yn pwysleisio'r angen am wasanaeth unffurf proffesiynoleddig. Eto nid yw'r broses ddiwygiedig yma yn hysbys yn lleol.
Hwylustod	Roedd pwynt casglu yn Peblig yn y ganolfan gymunedol leol. Noddfa. Fodd bynnag, fe'i diddymwyd ychydig flynyddoedd yn ôl a hyd yma heb ei atgyfodi.
Buddion Cymdeithasol	Mae diffyg presenoldeb ar yr ystâd yn golygu nad yw'r undeb credyd yn cynnig buddion cymdeithasol yn lleol oni bai bod trigolion yn defnyddio swyddfa ganolog yn y dref; fodd bynnag, oherwydd bod y brif swyddfa weinyddol yn brysur, fe gyfyngir ar y cyfleoedd i ryngweithredu.



Beth a ddarganfuom am Peblig a'r Undeb Credyd?

Fel y dywedwyd eisoes, gweithredwyd pwynt casglu yng Nghanolfan Cymunedol, Noddfa bob bore dydd Gwener am ychydig o flynyddoedd. Fe ddiddymwyd hwn ychydig o flynyddoedd yn ôl.

Fe amlygodd yr adroddiad diweddar 'Mae'r Fan yn y Stryd' a ystyriodd problem ddyled ar yr ystâd, yr angen am bwynt casglu undeb credyd ar yr ystâd.

Daeth rhai trigolion yn aelodau o'r undeb credyd pan aeth Cwmni Farepak i'r wal yn hwyr yn 2006 pan gollodd rhai ohonynt lawer o gynilion cyn y Nadolig. Ar yr un pryd, roedd yr undeb credyd yn cynnig benthyciadau mynediad di-oed trwy Gronfa Twf Cynhwysiad Ariannol Adran Gwaith a Phensiynau. Wrth i'r ddau ddigwyddiad gyd daro ac yn sgil y cyhoeddusrwydd lleol a ddilynodd, cynyddodd yr aelodaeth trigolion o'r ward.

Trwy roi rhestr i'r undeb credyd o godau post ar gyfer ward, roeddem yn gallu sefydlu'r ffeithiau canlynol:

Nifer y trigolion oedd yn aelodau: tua 133 o aelodau

Nifer y trigolion gyda chyfrifon gweithredol: tua 24 o aelodau

Nifer o drigolion a dderbyniodd fenthyciad trwy'r Gronfa Twf yn 2006/2007: tua 109

Nifer o drigolion a dalodd y Gronfa Twf yn ôl: 6

Nifer o drigolion na dalodd y benthyciad Cronfa Twf yn ôl: tua 103 o aelodau

Gyda benthyciadau'r Gronfa Twf ar gyfartaledd tua £350 yr un, mae'r dyled oddeutu £35,000. Mae hyn yn swm sylweddol.

Mae'r lefel isel o aelodau gweithredol ynghyd a'r lefel uchel o ddyled cymunedol yn awgrymu rhwystr rhag datblygiad yn y dyfodol a chynnydd mewn defnydd o'r gwasanaeth yn lleol.

Er mwyn cychwyn datrys y sefyllfa, cynigiwn fyddai trafodaeth rhwng yr undeb credyd, mudiadau cymunedol a thrigolion yn ddefnyddiol.



Beth a ddarganfuwyd gan y trigolion?

Fe gyfwelwyd â deg o drigolion ac fe'u dewiswyd yn seiliedig ar:

- ☀️ Eu diddordeb yn y prosiect ymchwil
- ☀️ Eu profiad blaenorol o ddefnyddio benthycwyr carreg drws
- ☀️ Eu diffyg defnydd/isafswm defnydd o gyfleusterau undeb credyd

Gofynnwyd i drigolion:

- ☀️ Archwilio profiadau benthycwyr carreg drws a dibyniaeth y gymuned arnynt.
- ☀️ Cyflwyno a thrafod damcaniaeth ac ymarfer undebau credyd
- ☀️ Archwilio newidiadau i ymarfer undeb credyd a fyddai'n caniatáu iddo gyrraedd at y rhai sydd ar hyn o bryd yn defnyddio neu a ddefnyddiodd benthycwyr arian amgen yn flaenorol
- ☀️ Crybwyll unrhyw fater perthnasol arall
- ☀️ Ystyried dod yn aelodau o undeb credyd

Trigolion	Gweithred
Trigolyn 1	Cefnogwyd i ddod yn aelod o undeb credyd ac fe ymgeisiodd yn llwyddianus am fenthyciadau mynediad di-oed
Trigolyn 2	Cefnogwyd i ddod yn aelod o undeb credyd, gofynnodd am fenthyciad i dalu ei cherdyn credyd, cynigwyd benthyciad mwy i gynnwys ei chardiau siopau mawr a dyledion catalog ac fe'i derbyniodd. Canfyddiad real bod yr undeb credyd yn gweithredu 'er budd gorau'r aelodau' yn unol â'u harwyddair
Trigolyn 3	Cefnogwyd i ddod yn aelod o undeb credyd ac mae wedi dechrau cynilo gyda hwy
Trigolyn 4	Aeth â ffurflen gais undeb credyd ymaith gyda hi
Trigolyn 5	Nid oedd â diddordeb mewn dod yn aelod o undeb credyd oherwydd ei bod yn cynilo ar gyfer y Nadolig trwy ei gwaith
Trigolyn 6	Cyfeiriwyd at y CAB yng nghyswllt dyled penodol
Trigolyn 7	Roedd yn hapus gyda'r gallu i gynilo'n rheolaidd gyda'r banc
Trigolyn 8 & 9	Yn ffyddlon iawn i'r benthyciwr carreg drws y mae'n ei ddefnyddio, pe bai'n gadael yna fe fyddant yn ystyried ymuno ag undeb credyd
Trigolyn 10	Aeth â ffurflen gais undeb credyd ymaith gyda hi

Mae'n bwysig nodi bod y tri a ddaeth yn aelodau o'r undeb credyd wedi derbyn cefnogaeth i wneud hynny – cymorth i gwblhau ffurflenni aelodaeth, cymorth gyda ffurflenni cais ar gyfer benthyciad, cyfarfodydd cyflwyno, cefnogaeth i fynychu cyfarfodydd cais am fenthyciad – yn cynyddu aelodaeth gweithredol hyd at 12.5%.



Gweler crynodeb ymatebion isod:

Archwilio'r profiad o fenthycwyr carreg drws a dibyniaeth y gymuned arnynt

Bydd y rhan fwyaf o bobl yn troi at y gronfa gymdeithasol neu'r banc yn gyntaf, teulu a ffrindiau yn ail ac os na allant hwy helpu byddant yn troi at fenthycwyr carreg y drws.

Yn aml mae'r casglwyr neu'r asiantwyr yn bobl leol ac mae'r cynefindra yma yn ei gwneud yn anodd i ddweud 'na' neu roi'r gorau i'w defnyddio.

Teimlwyd nad oedd pobl yn gyffredinol yn poeni am y llog yr oeddent yn ei dalu, maent eisiau'r arian yn y fan a'r lle. Pan ydych yn dlawd nid oes gennych ond ychydig o ddewisiadau. Mae pobl yn anobeithio.

Mae'r benthycwyr carreg drws yn dda am dargedu pobl agored i niwed, dod i'w hadnabod, dod yn ffrindiau; gwneud iddynt feddwl na allent ymdopi heb fenthyciad.

Yng nghyswllt cwpl o drigolion, roedd llog uchel y benthycwyr carreg drws yn golygu eu bod wedi cymryd benthyciad unwaith ond na ddychwelont yn ôl am ail fenthyciad o gwbl.

Teimlwyd bod y trigolion yn cymryd benthyciadau cyfredol gan fenthycwyr carreg drws rhag ofn na fuasent yn rhoi benthyciad iddynt yn y dyfodol pan fyddent hwyrach mewn gwir angen.

Yn ogystal, mae trigolion yn yr arferiad o roi arian i gasglwyr yn wythnosol ac mae arferiad yn anodd ei dorri.

Teimlai un trigolyn bod llawer o drigolion wedi gwneud cais am fenthyciad mynediad di-oed gydag undeb credyd pan yr oedd ganddynt arian arbennig i wneud hyn ac ni dalodd llawer ar yr ystâd yr arian yma'n ôl, ac or herwydd roeddent yn poeni am fynd yn ôl at yr undeb credyd rhag ofn atgyfodi'r hen ddyled yma.

Mae'r casglwyr yn bobl hyfryd iawn, mae un yn gweithio yn rhan amser mewn swydd arall ar yr ystâd, mae'r llall yn gweithio ar yr ystâd. Mae casglwyr yn taro heibio ar yr un diwrnod a'r un amser bob wythnos.

Cychwyn defnyddio benthyciwr carreg drws mewn ymateb i lythyr a anfonwyd trwy'r post Roedd gan ddau o drigolion berthynas agos gyda'r casglwr carreg drws, roedd yn cyrraedd ar yr un amser a'r un diwrnod bob wythnos ac roedd ar rai achlysuron wedi talu drostynt hyd nes y buasent wedi derbyn eu harian yn hwyrach yn yr wythnos, teimlant eu bod yn gyfarwydd â'r benthyciwr ac y buasent yn ei fradychu wrth ddefnyddio rhywun arall.

Cyflwyno a thrafod damcaniaeth ac ymarfer undebau credyd

Argraff y mwyafrif o'r trigolion oedd pe baech yn dod yn aelod y buasech yn gorfod cynilo am nifer o wythnosau cyn gallu gofyn am fenthyciad dwbl swm y cynilo.

Er bod y rhan fwyaf wedi clywed am undeb credyd, nid oedd y rhan fwyaf yn gwybod rhyw lawer amdanynt, fodd bynnag, roedd ymwybyddiaeth ei fod yn sefydliad llog isel yn hytrach na llog uchel. Nid oedd pob un yn gwybod ble roedd lleoliad y swyddfa ganolog. Roedd gan dri o drigolion brofiad o undeb credyd trwy brosiect dyled cymunedol gan deimlo fod un gwirfoddolwr yn barnu pobl o'r ystâd, nid oedd yn gwrando ac roedd yn drahaus a digywilydd ac roedd y profiad yma wedi eu diflasu a'u hatal rhag dod yn aelodau.



Archwilio newidiadau i ymarfer undeb credyd a fuasai'n caniatáu iddo gyrraedd y rhai sydd ar hyn o bryd, neu a oedd yn flaenorol wedi defnyddio benthycwyr arian amgen

Rhoi benthyciad bychan i aelodau newydd ar y cychwyn fel y mae'r benthycwyr carreg drws yn ei wneud, gan ei bod yn beryglus rhoi benthyciad mawr yn rhy gyflym, os gallant dalu benthyciad bychan yn ôl yna mae'r perygl o roi benthyciad mwy yn lleihau.

Byddai gosod isafswm taliadau wythnosol yn cynorthwyo pobl i reoli eu harian.

Dwyn rhestr cleient y benthycwyr carreg drws!

Mabwysiadu ymgyrch hysbysebu sy'n cymharu prisiau benthycwyr carreg drws, taflen cymharu prisiau sy'n amlinellu'r cyfraddau llog a'r hyn y mae'n golygu ar swm penodol o arian.

Mabwysiadu ymgyrch lythyru ar amseroedd penodol o'r flwyddyn e.e. Medi/Hydref ar gyfer y Nadolig.

Wythnos hyrwyddo reolaidd

Mae rhai cwmnïau yn anfon neges destun at gwsmeriaid i roi cynigion iddynt.

Mynd o ddrws i ddrws eu hunain i godi proffil y sefydliad a dod i adnabod pobl yr ystâd, ymgyrch drws i ddrws dwys ar y cychwyn

Mynd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio asiantwyr dibynadwy lleol i gasglu arian.

Mae'r swyddfa angen proffil uwch - mwy o le , mwy disglair, ac yn fwy croesawus.

Cynnig cynnyrch mwy hyblyg - benthyciadau anwarantedig

Cynnig cynnyrch penodol e.e. talu dyledion

Dylai'r holl geisiadau am fenthyciad ar gyfer aelodau newydd gael eu trafod wyneb i wyneb.

Nid yw'r un benthyciwr carreg drws yn gwrthod benthyc i unrhyw un - mabwysiadwch bolisi tebyg Gweithio'n agos gyda Canolfan Gwaith Plws, cael ystafell yn y swyddfa dól a darganfod ffordd i osod mandad fel bod arian yn cael ei dynnu yn syth o fudd daliadau i'r undeb credyd Sefydlu clwb undeb credyd neu bwynt casglu yn y tŷ cymunedol ar yr ystâd.

Cael pobl gyfeillgar, ddibynadwy sy'n gwirfoddoli ac sy'n 'siarad yr un bregeth'

Sefydlu clybiau cynilo yn ysgolion cynradd lleol

Defnyddio Pleidwyr Stryd Cymunedau yn Gyntaf i hyrwyddo undebau credyd.

Gwneud mwy o ddefnydd o safleoedd rhyngwrwyd sy'n argymhell undebau credyd megis moneysavingexpert.com - yr arbenigwr ariannol adnabyddus Martyn Lewis

Crybwyll unrhyw faterion perthnasol eraill

Mae llawer o bobl yn defnyddio cwmnïau taleb i gynilo ar gyfer y Nadolig, nid oes llog ar dalebau ac mae derbyn eich talebau'n cwl.

Mae rhai yn cynilo ar gyfer y Nadolig trwy'r gwaith ac yn falch bod y llog yn mynd i elusen.

Soniodd un o'r trigolion am yr ystod o gwmnïau rhyngwrwyd sydd erbyn hyn yn darparu benthyciadau llog uchel a'u hymarfer o anfon neges destun yn rheolaidd gyda chynigion gwahanol. Roedd hi wedi datblygu perthynas gyda gweinyddwr swyddfa a oedd, yn ei thyb hi, yn ei chynorthwyo i ddatrys ei thaliadau a'i dyledion, ond roedd y swm o arian a oedd yn ddyledus ar ôl tair blynedd yn llawer mwy na'r benthyciad gwreiddiol ac o gael ei chyfeirio at y CAB fe liniarwyd y sefyllfa.



Ymateb yr Undeb Credyd i argymhellion y trigolion ar gyfer newidiadau mewn ymarfer

Wedi cyfarfod gyda'r trigolion, rhoddwyd eu hargymhellion yng nghyswllt newidiadau mewn ymarfer gerbron yr undeb credyd ac fe nodwyd eu hargymhellion. Ffurfiodd y drafodaeth sail y strategaeth.

Argymhellion y trigolion	Ymateb yr Undeb Credyd	
Cynnig cynnyrch mwy hyblyg-benthyciadau anwarantedig	Mae benthyciadau mynediad di-oed anwarantedig eisoes yn cael eu cynnig yng Ngwynedd a Môn	✓
Rhoi benthyciad bychan i aelodau newydd ar y cychwyn fel y mae'r benthycwyr carreg drws yn ei wneud, gan ei bod yn beryglus rhoi benthyciad mawr yn rhy gyflym, os gallant dalu benthyciad bychan yn ôl yna mae'r perygl o roi benthyciad mwy yn lleihau.	Cyn belled â bod pobl yn gallu dangos y gallant fforddio i dalu benthyciad yn ôl heb roi eu hunain mewn dyled dyna fydd yn penderfynu maint y benthyciad. Nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno polisi i roi benthyciadau bychan i aelodau newydd ar y cychwyn.	✗
Byddai gosod taliadau isafswm wythnosol yn cynorthwyo pobl i reoli eu harian.	Gellir trafod hyn gyda phob aelod fel y maent yn penderfynu beth allant ei fforddio	✓
Dwyn rhestr cleient y benthycwyr carreg drws!	Nid yw hyn yn foesegol o bosib!	✗
Mabwysiadu ymgyrch hysbysebu sy'n cymharu prisiau benthycwyr carreg drws, taflen cymharu prisiau sy'n amlinellu'r cyfraddau llog a'r hyn y mae'n golygu ar swm penodol o arian.	Mae ymgyrch hysbysebu lleol yn targedu ardal benodol yn syniad da, nid ydym yn siŵr os ydym yn gallu cymharu gyda gwasanaethau ariannol eraill ond byddwn yn edrych i mewn i hyn.	✓
Mabwysiadu ymgyrch lythyru ar amseroedd penodol o'r flwyddyn e.e. Medi/Hydref ar gyfer y Nadolig	Unwaith eto mae hwn yn syniad da yn amlygu'r budd ar gyfer aelodau. Gall fod ymgyrch lythyru yn rhy ddrud yn nhermau'r ymateb a ddisgwyllir, fel arfer ceir ymateb o 1% sy'n broffidiol os yw'n ymgyrch genedlaethol ond nid ar raddfa fach. Fodd bynnag gallai rhannu taflenni trwy law brofi'n werth chweil.	✓
Wythnos hyrwyddo reolaidd	Eto, gall hyn weithio'n dda yn enwedig os yw pobl leol yn rhan o'r wythnos.	✓
Mae rhai cwmnïau'n anfon neges destun at gwsmeriaid i roi cynigion iddynt.	Eto gall hyn brofi yn rhy ddrud oni bai bod yr ymateb yn uchel iawn	✗



Argymhellion y trigolion	Ymateb yr Undeb Credyd	
Mynd o ddrws i ddrws eu hunain i godi proffil y sefydliad a dod i adnabod pobl yr ystâd, ymgych drws i ddrws dwys ar y cychwyn	Gall hyn fod yn bosib fel rhan o wythnosau ymgychhoedd hyrwyddo – nid ond rhoi taflenni trwy'r drws ond aros i siarad gyda phobl yn ogystal yn enwedig os gall gwirfoddolwyr lleol wneud cyflwyniadau ac argymhellion.	✓
Mynd o ddrws i ddrws gan ddefnyddio asiantwyr dibynadwy lleol i gasglu arian.	Mae hyn yn annhebygol am sawl rheswm:  Diffyg grym person  Pryderon iechyd a diogelwch  Byddai'n mynd yn erbyn ethos hunan gymorth a rhoi grym	✗
Mae'r swyddfa angen proffil uwch – mwy o le, mwy disglair, ac yn fwy croesawus.	Ar hyn o bryd, rydym yn trafod les newydd gyda'r awdurdod lleol ac yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi derbyn Grant Y Cynulliad i drwsio'r to. Wrth gysnabod nad yw'r adeilad yn ddelfrydol, mae'n annhebygol y byddwn yn gallu fforddio un mwy a chael yr arian i'w drawsnewid a'i ddodrefnu a'i gynnal am flynyddoedd, ond pwy a wŷr beth all ddigwydd yn y dyfodol, buasai'n ddelfrydol.	✗
Cynnig cynnyrch mwy hyblyg – benthyciadau anwarantedig	Gallwn edrych eto ar ein defnydd hyrwyddo ac efallai bod yn fwy penodol ynglŷn â sut yr ydym yn gwerthu ein gwasanaethau	✓
Dylai'r holl geisiadau am fenthyciad ar gyfer aelodau newydd gael eu trafod wyneb i wyneb.	Rydym yn ymdrechu i gyfarfod â phob aelod wyneb i wyneb pan y maent yn gwneud eu cais cyntaf am fenthyciad.	✓
Nid yw'r un benthyciwr carreg drws yn gwrthod benthyciad i unrhyw un - mabwysiadwch bolisi tebyg	Ni allwn gael polisi i beidio gwrthod pobl neu gynnig benthyciad i bawb os ydy'n amlwg na allant fforddio i dalu'r benthyciad yn ôl. Rydym o bosib yn gwrthod oddeutu 5% o geisiadau ac yn cynnig 30% o fenthyciadau wedi eu lleihau. Rydym yn ymdrechu i gynnig rhywbeth i bawb, weithiau gall fod yn gyfeirio at asiantaeth arall megis CAB a'u gwahodd i ddod yn ôl wedi i'w sefyllfa wella.	✗
Gweithio'n agos gyda Canolfan Gwaith Plws, cael ystafell yn y swyddfa dól a darganfod ffordd i osod mandad fel bod arian yn cael ei dynnu yn syth o fudd daliadau i'r undeb credyd	Rydym yn bendant â diddordeb mewn gweithio'n agosach gyda Canolfan Gwaith Plws yn enwedig gan ein bod yn awr yn gallu cynnig cyfrifon banc cyfredol ac efallai bod rhai o'u cleientiaid yn wynebu problem wrth geisio agor cyfrifon o'r fath. Mae'n annhebygol y byddent yn cynnig gofod i ni yn y Ganolfan. Ers Rhagfyr 2006 gall undebau credyd o dan amgylchiadau arbennig wneud cais i'r AWPPh i ad dalu benthyciadau iddynt trwy ddiidyniadau o fudd daliadau ar yr amod y diwellir criteria arbennig (gweler Llyfryn Cyngor Dyled CPAG 2010)	✓



Argymhellion y trigolion	Ymateb yr Undeb Credyd	
Sefydlu clwb undeb credyd neu bwynt casglu yn y tŷ cymunedol ar yr ystâd.	Byddem yn croesawu'r cyfle i sefydlu pwynt casglu ar yr ystâd yn enwedig os gallwn gynnwys gwirfoddolwyr lleol.	✓
Cael pobl gyfeillgar, ddibynadwy sy'n gwirfoddoli ac sy'n 'siarad yr un bregeth'	Mae'r pwyslais ar hyfforddiant a chefnogaeth gwirfoddolwyr dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn creu gwasanaeth cyfeillgar, agored, eglur a phroffesiynol.	✓
Sefydlu clybiau cynilo yn ysgolion cynradd lleol	Rydym wedi ymgymryd â phrosiect peilot gyda Chyngor Sir Gwynedd yn Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog ac fe fyddem yn fodlon gweithio gydag ysgolion cynradd sy'n gwasanaethu'r ward i ymgymryd â gwaith tebyg.	✓
Defnyddio Pleidwyr Stryd Cymunedau yn Gyntaf i hyrwyddo undebau credyd.	Byddem yn croesawu'r cyfle i weithio gyda unrhyw fenter cymunedol effeithiol ac fe fuasem yn hoffi dysgu rhagor am y Pleidwyr Stryd.	✓
Gwneud mwy o ddefnydd o safleoedd rhyngrwyd sy'n argymhell undebau credyd megis moneysavingexpert.com – yr arbenigwr ariannol adnabyddus Martyn Lewis	Gallwn hysbysebu bod rhyngrwydi megis yr un yma yn hyrwyddo undebau credyd fel gwasanaethau a chynnyrch ariannol da. Gallwn hefyd sicrhau bod gan sefydliadau eraill ddolen gyswllt i'n gwefan. Byddem ychydig yn fwy gofalus ynglŷn â defnyddio safleoedd rhwydweithio eraill oherwydd y peryglon o wneud hynny.	✓

Fe ddangoswyd yr ymateb yma i'r trigolion a gymerodd ran ac fe ddaethant yn seinfwrdd ar gyfer profi taflenni ac elfennau amrywiol eraill o'r strategaeth. Fe adolygwyd defnyddiau a syniadau yn gyson.



Datrysïadau – y strategaeth

Yn syml, bydd yn rhaid i'r strategaeth o annog y trigolion hynny yn Peblig nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio undeb credyd ac y sydd efallai yn defnyddio benthyccwyr carreg drws, i ddefnyddio'r gwasanaeth ariannol lleol, gystadlu yn nhermau cynnyrch hyblyg, proses cyraeddadwy, hwylustod a darpariaeth budd cymdeithasol trwy ddefnyddio rhai o'r syniadau a argymhellwyd gan y trigolion sy'n dderbyniol gan y sefydliad.

I grynhoi, fe'i seilir ar y gweithrediadau canlynol:-

	Gweithrediadau
Cynnyrch hyblyg	Mae'r cynnyrch hyblyg yma eisoes ar gael, fodd bynnag nid yw hyn yn hysbys i bawb – bydd ymgyrch hyrwyddo ar y ward yn ymdrechu i unioni hyn
Proses cyraeddadwy	Er nad yw'n broses di oed, mae angen pwysleisio yn yr ymgyrch hyrwyddo bod y broses yn llawer cyflymach ac er budd gorau'r aelodau.
Hwylustod	Pwynt casglu ar yr ystâd gan ddefnyddio gwirfoddolwyr lleol Dau ymgyrch hyrwyddol y flwyddyn yn defnyddio taflenni gyda neges benodol a chynigion gyda nwyddau megis magnetau rhewgell, torchau allwedd, talebau troli, bathodynnau a.y.b. Defnyddio gwirfoddolwyr lleol a staff/gwirfoddolwyr undeb credyd i guro ar y drysau a siarad gyda'r trigolion am yr hyn sydd ar gael. Gweithio gydag asiantaethau sydd eisoes yn cael derbyniad ar garreg y drws a gofyn i'w staff i ddechrau i ddod yn aelodau eu hunain ac yn ail i hysbysu'r cleientiaid/cwsmeriaid o'r gwasanaeth
Buddion cymdeithasol	Fel yr uchod

Gweler Atodiad B am gynllun gweithredu.

Gweler y pdf cysylltiedig am enghreifftiau o'r templedau.

Seilir y strategaeth ar egwyddorion o:



Fod yn agored, amlwg ac onest



Ymddiriedaeth a pharch



Cefnogaeth gyfredol i gael mynediad at wasanaethau

Arbrofwyd y strategaeth gyda grwpiau cymunedol ac asiantaethau sy'n gweithio ar y ward cyn sefydlu grŵp gorchwyl i weithredu'r cynllun gweithredol dros y 12-18 mis nesaf.



Canlyniadau

Yn anochel mae canlyniadau yn deillio o'r dull yma fel yr ydym yn ceisio galluogi tenantiaid a thrigolion i ddod yn aelodau:-

Canlyniad	Manylion
Gallu	Mae'r dull yma yn ddwys yn nhermau amser oherwydd ei fod yn gofyn am baratoi'r asiantaethau, amser i sefydlu a chefnogi pwynt casglu, amser i ymgymryd ag ymgyrchoedd hyrwyddol ac amser i ymdopi â chynnydd mewn aelodaeth a cheisiadau am fenthyciadau
Cost	Fe amcangyfrifir yn flynyddol mai'r gost o sefydlu a chefnogi'r pwynt casglu yw £3,000 yn ogystal â rhent os yn berthnasol. Ar hyn o bryd nid yw mannau casglu newydd yn flaenoriaeth ar gyfer Undeb Credyd Gogledd Cymru. Mae costau teithio ac amser ychwanegol ynghlwm wrth fannau casglu mewn ardaloedd gwledig. Mae ymgyrchoedd hyrwyddol blynyddol unwaith/dwywaith y flwyddyn yn gofyn am gyllideb hysbysebu iach
Cynilwyr	Os oes cynnydd mewn benthyciadau, bydd angen i gynyddu'r swm o gynilion a ddelir. Mae argymhellion yn cynnwys:- ☀ Gweithio gyda sefydliadau megis Rotary, Lions a.y.b. oherwydd eu bod wedi gweithio gydag undebau credyd eraill i gynyddu eu cynilion ☀ Annog staff asiantaeth i ddod yn aelodau ☀ Gofyn i unigolion proffil uchel yn/o Gymru i ddod yn aelodau gan gynyddu'r cynilion a phroffil
Disgwyliad	Oherwydd y cap cyfradd credyd, mae'n anodd i undeb credyd roi benthyciadau i aelodau risg uchel. Ar hyn o bryd mae'r undeb credyd yn amcangyfrif ei fod yn gwrthod 5% o geisiadau ac yn cynnig benthyciadau llai i 30% o geisiadau. Felly, mae risg o godi disgwyliadau ac achosi siom i unigolion yn bodoli yn ogystal â photensial o gael enw negyddol yn lleol.

Mae hyn yn amlygu'r dilema sydd gan yr undebau credyd, mae cost uchel ynghlwm wrth ymgeisio i dargedu cynhwysiad ariannol ac nid yw cymhorthdal bob amser ar gael; bydd datblygu'r busnes yn gynhenid fel gwasanaeth ariannol i bawb yn cymryd amser, ond fe all fod yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir ac fe fydd, yn y pen draw, yn tyfu i fod yn ddigon mawr i gynnig gwasanaeth a chynnyrch i bob adran o'r gymuned.



Sut y gwnaeth y grwpiau cymunedol ymateb?

Roedd y grwpiau cymunedol a gyfwelwyd yn cynnwys:-

-  Cymunedau'n Gyntaf
-  Canolfan Gymunedol Noddfa
-  Eglwys Noddfa
-  Cristnogion yn erbyn Tlodi
-  Ysgol Feithrin

Gofynnwyd iddynt am:-

-  Staff sy'n aelodau cyfredol o undeb credyd
-  Cyfeirio at yr undeb credyd a throsglwyddo gwybodaeth i aelodau'r gymuned fel yn briodol
-  Unrhyw faterion cymunedol perthnasol sydd angen eu hystyried fel rhan o'r ymchwil a datblygiad strategaeth

Staff sy'n aelodau cyfredol o undeb credyd

Roedd pedwar o weithwyr cymunedol yn aelodau o'r undeb credyd. Nid oedd dau ohonynt yn aelodau gweithredol, ond ail actifadwyd eu cyfrifon yn ystod y proses ymchwil.

Roedd un gweithiwr â diddordeb mewn dod yn aelod newydd ac yn awyddus i annog cyd weithwyr i ymuno'n ogystal.

Fe gynilodd un gweithiwr cymdeithasol gyda'r undeb credyd ar ran aelodau'r teulu.

Cyfeirio at undeb credyd a throsglwyddo gwybodaeth i aelodau'r gymuned fel yn briodol

Roedd yr holl weithwyr cymunedol yn cyfeirio trigolion at yr undeb credyd oni bai am y Cristnogion yn erbyn Tlodi a oedd ond yn cyfeirio pobl os mai eu bwriad oedd cynilo ac nid benthgylg.

Roedd y mwyafrif yn hapus i fod yn rhan o unrhyw ymgyrch hyrwyddol ar yr ystâd ac roedd hynny'n cynnwys, rhannu gwybodaeth, siarad gyda thrigolion a chynnig cefnogaeth ychwanegol i gysylltu â'r undeb credyd.

Roedd y mwyafrif yn gefnogol iawn i'r syniad o bwynt casglu newydd ar yr ystâd.

Unrhyw faterion cymunedol perthnasol sydd angen eu hystyried fel rhan o'r ymchwil a datblygiad strategaeth

Fe soniwyd sawl gwaith am fethiant Farepak gyda hynny'n cyd daro â chynnig o fenthyciadau mynediad di-oed twy'r Gronfa Twf trwy'r undeb credyd ac fe deimlai'r gweithwyr y gallai hyn fod yn rhwystr i'r rhai nad oeddent wedi talu'r benthyciad yn ôl i ail actifadu eu cyfrifon oherwydd eu bod yn ofni atgyfodi'r ddyled. Ymhellach, efallai fod hyn wedi gadael teimladau diflas ar yr ystâd ynglŷn â'r undeb credyd yn gyffredinol.

Mae traddodiad hir o glybiau cynilo yn Eglwys Noddfa, yn bodoli ar yr ystâd Clybiau'r Nadolig, cynlluniau talebion a.y.b. ac hefyd mae pobl yn yr arferiad o ddefnyddio gwasanaethau lleol megis y co-op hefyd ar ddyddiau ac amseroedd rheolaidd.



Nododd yr adroddiad 'Mae'r Fan yn y Stryd' a ystyriodd y broblem o ddyled ar yr ystâd yr angen am bwynt casglu undeb credyd ar yr ystâd.

Cafwyd argymhelliad hefyd yn adroddiad 'Mae'r Fan yn y Stryd' i recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr i sefydlu cymhorthfa ar yr ystâd i baratoi pobl ar gyfer eu cyfeirio at asiantaethau eraill megis CAB, undeb credyd a.y.b. Teimlwyd y gallai cymhorthfa cefnogaeth dyled ac undeb credyd weithio ochr yn ochr yn llwyddiannus er budd y gymuned.

Er bod swyddfa'r undeb credyd yng nghanol y dref teimlwyd nad oedd wedi ei lleoli ar y llwybr cerdded naturiol i'r dref ac nid yw nifer o drigolion yn mynd i'r dref gan ffafrio yn hytrach ddefnyddio'r swyddfa bost ar yr ystâd.

Cytunodd gweithwyr cymunedol gyda'r trigolion bod angen gwell gwybodaeth ar gyfer y trigolion a fyddai'n egluro wrthynt y gwahaniaeth rhyngddynt hwy a benthycwyr carreg drws a'r manteision o fod gyda'r undeb credyd.

Nid oedd yr holl weithwyr cymunedol yn ymwybodol o'r newidiadau oddi fewn i'r undeb credyd dros y deuddeg mis diwethaf a'r cynnyrch newydd a'r gwasanaethau gwell oedd ar gael..

Roedd un gweithiwr cymunedol yn rhedeg clwb cynilo ar ran ei sefydliad ac erbyn hyn mae wedi dechrau trafodaethau gyda'r undeb credyd i symud y cyfrif.

Yn sgil y ffaith bod yr undeb credyd wedi rhedeg pwynt casglu llwyddiannus ar yr ystâd dros ychydig o flynyddoedd nodwyd pryder y gallasai ei ddiddymiad fod wedi digio rhai o'r trigolion ac y gallasai hyn fod yn rhwystyr yn y dyfodol. Nodwyd hefyd nad oedd y gwirfoddolwyr a oedd yn rhedeg y pwynt casglu bob amser yn bresennol ac nad oeddent bob amser 'yn ddigon proffesiynol'.

Gall ail sefydlu'r pwynt casglu yng Nghanolfan Gymunedol Noddfa brofi'n anodd oherwydd bod y Ganolfan erbyn hyn wedi colli ei grant ar gyfer costau rhedeg ac fe fydd yn gorfod codi tâl am rentu'r ystafell. Codi'r rhent am logi'r ystafell o Ebrill 2011 ymlaen.

Pan sefydlwyd y pwynt casglu ar yr ystâd yn wreiddiol cynhaliwyd ymgyrch hyrwyddol yn cynnig basged nwyddau fel gwobr.

Mae'r rhan fwyaf o fudiadau yn hapus i wahodd yr undeb credyd i ddiwrnodau agored a fwriedir eu cynnal ganddynt ar yr ystâd. Roedd y rhan fwyaf hefyd yn hapus i gynnwys gwybodaeth am undebau credyd mewn unrhyw ddefnydd cymunedol e.e. cylchlythyrau.

Problem a fynegwyd gan un gweithiwr cymunedol a gweithwyr cymunedol eraill oedd eu bod yn adnabod trigolion a oedd wedi derbyn gwasanaeth anfoddhaol gan wirfoddolwr undeb credyd ac yn gweld y gallasai hyn fod yn rhwystyr arfaethedig yng nghyswllt defnyddio'r gwasanaeth yn y dyfodol.



Sut y gwnaeth yr asiantaethau ymateb?

Roedd yr asiantaethau a gyfwelwyd yn cynnwys:-

-  Dwy ysgol gynradd
-  Dwy gymdeithas tai
-  Tîm bydwreigiaeth a thîm ymwelydd ieuchyd
-  Canolfan Integredig Plant Plas Pawb
-  Gwasanaeth Cymdeithasol Cyngor Gwynedd a Chyfarwyddwr Tai a Rheolwr Adrannol
-  Prosiect Genesis
-  Canolfa Gwaith Plws

Gyda hwy, fe drafodwyd:-

-  Staff sy'n aelodau cyfredol o undeb credyd
-  Cyfeirio at yr undeb credyd a throsglwyddo gwybodaeth i aelodau'r gymuned fel yn briodol
-  Unrhyw faterion cymunedol perthnasol sydd angen eu hystyried fel rhan o'r ymchwil a datblygiad strategaeth

Staff sy'n aelodau cyfredol o undeb credyd ac a fydd yn aelodau i'r dyfodol

O'r asiantaethau a gyfwelwyd dim ond un oedd yn aelod cyfredol ac yn defnyddio'i chyfrif. Roedd yn frwdfrydig iawn am yr undeb credyd ac wedi datblygu ei deallusrwydd o'r gwasanaeth tra ar secondiad i brosiect cymunedol gyda gweithiwr estyn allan yn cefnogi teuluoedd yn y gymuned ac ymdrin ag amrywiaeth o faterion yn cynnwys arian. Roedd gweithiwr arall mewn asiantaeth wahanol wedi bod yn aelod am nifer o flynyddoedd, ond roedd wedi ei gynhyrfu a'i ddigio gan wirfoddolwr ac wedi mynd â'i arian ymaith.

O'r rhai eraill a gyfwelwyd roedd y mwyafrif wedi clywed am undebau credyd, ond nid oeddent yn gallu egluro'n fanwl beth oedd, â diddordeb mewn darganfod rhagor am undebau credyd ac yn ystyried dod yn aelodau eu hunain. Deilliodd nifer o ganlyniadau positif o'r cyfarfodydd hyn:-

-  Pum gwahoddiad i siarad yng nghyfarfodydd timau staff a rheolwyr
-  Un gwahoddiad i sefydlu gweithdai/cymorthfeydd staff mewn swyddfeydd staff gwahanol a hysbysebwyd trwy fwletin staff wedi ei gefnogi gan y Prif Weithredwr
-  Un gwahoddiad i gynhadledd staff
-  Dau wahoddiad i is grwpiau cynhwysiad ariannol/grwpiau ffocws
-  Dau wahoddiad i gyfrannu i gylchlythyrau staff

Roedd un o'r sefydliadau isod wedi sefydlu system didynnu'n uniongyrchol o'r gyflogres, er nad oedd y staff yn ymwybodol o hyn. Roedd wedi ei hysbysu trwy nodyn gan y cyflogwr yn eu slip cyflog. Nid oedd y staff yn ymwybodol o fodolaeth nodyn gan eu cyflogwr yn y slip cyflog. Roedd sefydliadau eraill yn y broses o sefydlu diddymiad cyflogres ac roedd rhai yn awyddus i drafod ymhellach.



Cyfeirio at undebau credyd a throsglwyddo gwybodaeth i aelodau o'r gymuned fel yn briodol

Roedd y mwyafrif o'r sefydliadau yn deall eu bod eisoes ar garreg drws eu defnyddwyr/ cwsmeriaid ac yn aml roedd ganddynt berthynas ffyddiog, agos gyda hwy, roeddent mewn safle da i drosglwyddo gwybodaeth ac yn hapus i rannu gwybodaeth am undebau credyd i aelodau'r gymuned pan yn briodol. Derbyniodd yr undeb gredyd wahoddiad i fynychu dau ddiwrnod o hwyl gan un sefydliad.

Teimlai rhai aelodau o staff eu bod angen caniatâd i rannu gwybodaeth gan reolwyr uwch yn y sefydliad, ac unwaith y byddai hyn wedi ei sicrhau y byddent yn hapus i wneud hynny. Ceir llythyrau templed i gadeiryddion yn Atodiad C.

Teimlai un aelod o staff mai hyd yn oed gyda chaniatâd y byddai'n fater problemus am amryw o resymau :-



Baich gwaith a phwysau gwaith



Gall dull holistaidd roi ffocws cyfrifoldeb statudol cychwynnol y swydd ar risg.



Mae nifer o sefydliadau yn gofyn i'w taflenni gael eu rhannu



Pam argymhell un gwasanaeth ariannol yn hytrach na'r llall?

Ar y cyfan, roedd rhannu gwybodaeth yn ymddangos yn dderbyniol, tra roedd hyrwyddo gweithredol a chefnogaeth ymarferol yn llai derbyniol.

Roedd gan un sefydliad ddiddordeb neilltuol yn y cynnig o gyfrifon banc cyfredol oherwydd bod hyd at 8% o'u cleientiaid ar unrhyw un adeg wedi profi anhawster wrth geisio agor cyfrif banc.

Roedd sefydliad arall wedi ceisio defnyddio dull newydd i gynyddu aelodaeth undeb credyd - rhoi £10 i bob cwsmer ar yr amod eu bod yn gallu agor cyfrif gyda £10 o'u heiddo eu hunain. Teimlent fod hyn wedi bod yn rhannol llwyddiannus; fe'i harbrofwyd mewn un ardal yn unig ac fe welwyd cynnydd bychan mewn aelodaeth.

Unrhyw faterion perthnasol sydd angen eu hystyried fel rhan o'r ymchwil a datblygiad strategaeth.

Roedd nifer o aelodau o'r staff a'r rheolwyr yn hynod ymwybodol o leihad mewn budd daliadau a grantiau'r wladwriaeth a'r lefel isel o gyflogau yn lleol, ynghyd â chynnydd sylweddol mewn prisiau bwyd, tanwydd, biliau a.y.b. a sut y gallai hyn arwain at bobl i gymryd benthyciadau gyda benthycwyr llog uchel ac roeddent yn awyddus i ddarganfod dewisiadau moesegol llog isel.

Mae'n rhaid i reolwyr yn enwedig, gynllunio a chyflenwi eu gwasanaethau yn holistaidd ac roedd arian a phroblemau dyled yn dod yn flaenoriaethau cynyddol. Rhaid i ddarpariaeth gael ei gyflenwi mewn ffordd gysylltiedig, gydag adrannau, sefydliadau, grwpiau gwirfoddol a chymunedol gwahanol yn cydweithio. Mae'r cysylltiadau rhwng tlodi, dyled a difreintedd wedi'u dogfennu yn dda ac mae ymdrin â'r problemau hyn yn dod yn anodd ei hanwybyddu.

Cydnabuwyd na fuasai undeb credyd yn gallu helpu bob un os na allant ddangos eu bod yn gallu fforddio i dalu'r benthyciad yn ôl. Mae hyn yn parhau i wneud grŵp o bobl yn agored i niwed i fenthycwyr llog uchel. Roedd dau sefydliad yn trafod gyda Moneyline sy'n codi cost cyfradd ARP 47% arferol .

Cynigiodd un sefydliad ofod ar gyfer pwynt casglu mewn dwy o'u swyddfeydd lleol yn ddi-gost ac roedd yn awyddus i drafod ffyrdd ymarferol o gefnogi'r gwasanaeth.



Cyrraedd Cynilwyr incwm canolig a phroffil uchel

Ar hyn o bryd rydym yn ymgeisio dwy strategaeth wahanol ar gyfer cynyddu cynilion a phroffil.

Y gyntaf yw targedu grwpiau megis Rotary, Lions, Soroptomists, Round Table, Inner Wheel, pobl broffesiynol sy'n dod at ei gilydd i godi arian a chynorthwyo gweithgaredd gwirfoddol yn eu cymdogaeth. Cynyddodd un undeb credyd yn y gogledd yn sylweddol gan wneud camau arwyddocaol tuag at gynladwyedd ariannol trwy weithio gyda grŵp o'r fath yn eu cymdogaeth.

Fel rhan o'r ymchwil, fe ysgrifennom at y Llewod yng Nghaernarfon ac rydym yn mynychu eu cyfarfod ar 10 Mai i drafod y mater ymhellach.

Yn ail ran argymhellion yr adolygiad undebau credyd yng Nghymru 2009 oedd datblygu hunaniaeth genedlaethol ar gyfer mudiad yr undeb credyd ac fe fu trafodaethau eang ynglŷn ag ymgyrch hyrwyddol yn seiliedig ar arweinydd adnabyddus Cymraeg. Gan gydnabod bod risgiau ynghlwm wrth weithio gydag un unigolyn, mae'r ymchwil yma yn ymgeisio dull gwahanol.

Trwy wneud cysylltiad ag unigolion o feysydd gwahanol- rygbi, actio, opera, cerddoriaeth pop a.y.b. rydym yn ceisio ennill cefnogaeth undeb o bobl o un maes gyda'r mudiad undeb credyd yn gyffredinol gan ofyn iddynt ymgymryd â dau orchwyl:-



Ymuno ag undeb credyd yn ardal eu mebyd



Cefnogi pobl eraill o'r un maes i ymuno ag undeb credyd yn ardal eu mebyd.

Amgaewn dempled llythyr yn Atodiad D yn y gobaith y bydd eraill yn ei ddefnyddio i annog unigolion adnabyddus gyda chysylltiadau lleol i ymuno.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Wedi i ni brofi ein damcaniaeth, dros y 12-18 mis nesaf, fe weithredir y strategaeth yn Atodiad B mewn un gymuned fechan yn Peblig, Caernarfon. Bydd nifer o rannau i'r strategaeth:-



Datblygiad/cydgynfnerthiad cynnyrch a gwasanaethau



Sefydlu grŵp gorchwyl i fonitro, asesu a gwerthuso'r strategaeth



Rhoi gwybod i asiantaethau am y gwasanaeth sydd ar gael ac annog aelodaeth



Sefydlu pwynt casglu ar yr ystâd



Ymgymryd dwy ymgyrch rhannu taflenni/nwyddau penodol ar yr ystâd gan ddefnyddio aelodau undeb credyd lleol



Recriwtio cynilwyr incwm canolig proffil uchel



Gwerthuso'r strategaeth

Unwaith y bydd y proses yma wedi ei gwblhau a'r canlyniadau wedi'u colady, fe anfonir y wybodaeth yma ymlaen i Dîm Cefnogaeth Undeb Credyd LlCC ar gyfer lledaenu'r wybodaeth ymhellach.



Casgliad

A lwyddasom i ddarganfod ffordd o wneud undeb credyd yn ddewis arferol ac atyniadol ar gyfer trigolion cymuned incwm isel?

Os lwyddasom, bydd y cynllun, pe'n cael ei wireddu yn rheolaidd a chyson dros y blynnyddoedd nesaf, yn cynyddu aelodaeth yn ward Peblig, Caernarfon.

A wnaethom ddarganfod rhywbeth newydd neu arloesol?

Naddo a dweud y gwir, fe ail ddarganfyddom yr hyn y mae gweithwyr cymunedol ar draws y wlad yn ei wybod, mae newid ymddygiad yn gofyn amser, gwybodaeth, gofal a chefnogaeth gan unigolion a ymddiriedir ynddynt.

Mae'r ymchwiliad ar raddfa fechan yma wedi darparu microcosm o'r materion a'r penbleth sy'n wynebu undebau credyd ar draws Cymru wrth iddo ymdrechu am gynnaladwyedd wrth ddiwallu'r agenda cynhwysiad ariannol.

Mae Ffocws Defnyddwyr Cymraeg yn credu fod gennym 'fom-amser sy'n ticio' yn nhermau gallu pobl i ymdopi'n ariannol yn ystod y misoedd nesaf (Ffocws Defnyddwyr Cymru, 2010).

Fodd bynnag, mae undebau credyd yng Nghymru wedi denu sylw cenedlaethol erbyn hyn. Mae yna 'anfodlonrwydd eang a chyfredol gyda'r sector bancio' ac mae hyn wedi achosi diddordeb cynyddol mewn sefydliadau cydweithredol a chyd feddiannol yn cynnwys yr undebau credyd' (*Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd 2009*) Hefyd mae cefnogaeth polisi ar gyfer y mudiad gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gosod targedau clir yn ei Gynllun Gweithredu Undebau Credyd - 2010-2013 a enwir 'Codi'r Proffil' i-

1. cynyddu treiddiad marchnad undeb credyd o 1.82% i 6% erbyn 2020, gan gynyddu'r nifer o oedolion sy'n aelodau o 43,000 i 142,000
2. cynyddu sylfaen ased undebau credyd Cymru o £21m i £75 erbyn 2020
3. cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o undebau credyd yng Nghymru erbyn Medi 2013
4. cynyddu'r nifer o wirfoddolwyr gweithredol undebau credyd o 754 yn 2009 i 1,000 erbyn Mawrth 2013
5. darparu cefnogaeth i'r holl undebau credyd Cymraeg sy'n derbyn arian Llywodraeth y Cynulliad i adolygu a chyflenwi yn erbyn eu cynlluniau busnes tair blynedd cyfredol i nodi sut, ac erbyn pryd y gellir cyflawni cynnaladwyedd- yr adolygiadau i gymryd lle erbyn Medi 2011

Bydd y ffactorau yma yn creu amgylchiadau ffafriol ar gyfer y mudiad undeb credyd i symud ymlaen yn nhermau proffil cenedlaethol a'i lefelau recriwtio (*Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cydweithredol Caerdydd 2009*) gyda'r cyfle i sicrhau yr ystyrir undebau credyd fel adnodd bancio cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau i bob adran o gymdeithas, gan ddiddymu ei label 'banc y dyn tlawd' ond, diolch i'w dwf, fydd yn cyrraedd wardiau incwm isel trwy gydol Cymru gan gynnig benthyciadau carreg drws moesegol amgen.



Cyfeiriadau

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Dogfen un Cymru

Sefydliad ar gyfer Astudiaethau Cyweithredol Caerdydd (2009) Adolygiad o'r mudiad undebau credyd yng Nghymru Crynodeb Gweithredol, Llywodraeth Cynulliad Cymru

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009) Cymryd pawb i Ystyriaeth – Strategaeth Cynhwysiad Ariannol ar gyfer Cymru

Rowlingson (1994) Moneylenders and their Customers, London, PSI

Dayson, Paterson and Powell (1999) Investing in People and Places, Salford Academic Enterprise

Dayson (2006) Holyhead Financial Inclusion Report, Community Finance Solutions, Salford University

Sylfaen Cymunedol (2009) Mae'r Fan yn y Stryd, Partneriaeth Pobol Peblig

Affordable credit: The Way Forward, 2005, JRF, Sharon Collard and Elaine Kempson

Goth, McKillop and Ferguson, Building Better Credit Unions, JRF, 2006

Tackling Financial Exclusion: An area based approach, Collard, Kempson, Whyley, JRF, 2001

Financial inclusion in the UK: Review of policy and practice, Lavinia Milton, University of Kent, JRF, 2008

Kept out or opted out? Kempson and Whyley, Policy Press/JRF, 1999

Is a not-for-profit home credit business feasible? Kempson, Ellison, Whyley and Jones, JRF, 2009

Credit Unions – Rural Initiatives: Credit Unions in Rural Areas – Policy and Practical Implications, Annabel Barkers, Colne Valley Trust, 1995

Stephen Hope, 'Promoting the effectiveness and efficiency of credit unions in the UK', Friends Provident Foundation, 2010

Cofnodion CCBY Llechen Tachwedd 2010

Consumer Finances in Wales: Debt and credit use – August 2010 – Consumer Focus Wales

LICC, Codi'r Proffil: Cynllun Gweithredu Undebau Credyd 2010-2013,



Atodiad A

Mae'r argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cynnwys:-

Llywodraeth Cynulliad Cymru – cefnogi twf undebau credyd – yn cynnwys:-

- ☀ gosod targed i'r undeb credyd i ymgeisio i sicrhau bod 6% o boblogaeth Cymru'n aelodau o'r undeb credyd erbyn 2020
- ☀ annog ei staff ei hun i ddod yn aelodau
- ☀ lansio ymgyrch proffil uchel
- ☀ hyrwyddo diddymiad uniongyrchol o'r gyflogres

Llywodraeth Cynulliad Cymru – cefnogi twf undebau credyd – yn cynnwys:-

- ☀ cefnogaeth i ddatblygu hunaniaeth undeb credyd Cymru unedig
- ☀ ariannu ymgyrch proffil uchel
- ☀ cefnogi Cymunedau yn Gyntaf i weithio gydag undebau credyd

Llywodraeth Cynulliad Cymru – targedu cymorth ariannol – yn cynnwys :-

- ☀ parhau i ystyried cefnogaeth undebau credyd fel buddsoddiad tymor hir
- ☀ sicrhau bod grantiau cyfalaf ar gael i wella adnoddau cefn swyddfa
- ☀ blaenoriaethu cefnogaeth ariannol ar gyfer cefnogi dyheadau'r undebau credyd i gynyddu eu haelodaeth ac ystod o wasanaethau

Llywodraeth Cynulliad Cymru – cefnogi trefn lywodraethol dda ac ymarfer da

- ☀ rhoi enghreifftiau ymarferol o undebau credyd effeithiol fel delfrydau gweithredu
- ☀ archwilio hyfforddiant achrededig
- ☀ cefnogi darpariaeth lefel uchel o hyfforddiant ar gyfer cyfarwyddwyr a rheolwyr
- ☀ cefnogi sefydlu gwasnaeth 'diwydrwydd teg' annibynnol, rhad ac am ddim ar gyfer undebau credyd sy'n ystyried uno
- ☀ hyrwyddo cyfarfodydd cyswllt gydag undebau credyd

Llywodraeth Cynulliad Cymru – cyrraedd at farchnadoedd newydd – yn cynnwys:-

- ☀ comisiynu ymchwil pellach i archwilio'r effaith o weithio gyda chymunedau anodd eu cyrraedd ac eithriedig yn ariannol
- ☀ ystyried dichonolrwydd sefydlu rhwydwaith mewnol Cymru gyfan
- ☀ hyrwyddo undebau credyd fel rhan o gwricwlwm ysgolion

Mae'r argymhellion ar gyfer undebau credyd Cymru yn cynnwys:-

- ☀ cynllunio strategol i leoli eu sefydliadau yn gystadleuol yn y farchnad
- ☀ recriwtio ac asesu rheolwyr undebau credyd ar sail sgiliau lefel uwch mewn arweiniad, strategaeth, rheolaeth busnes ac ariannol
- ☀ recriwtio aelodau bwrdd medrus a buddsoddi mewn hyfforddiant pellach
- ☀ asesu'r risgiau a'r cyfleoedd yng nghyswllt deddfwriaeth sydd ar ddod
- ☀ bod yn ystyriol o ddyletswydd gyfreithiol i ymarfer "diwydrwydd teg" wrth ddod i benderfyniadau ar faterion pwysig megis uno.
- ☀ Ceisio cyrraedd isafswm ratio ased/cyfalaf o 3% mor fuan â phosib
- ☀ Mynd i'r afael â'r angen i sicrhau bod rhagor o flaendaliadau aelodau yn cael eu defnyddio fel benthyciadau fel ffordd o gynhyrchu rhagor o incwm a symud tuag at gynnaladwyedd ariannol



Atodiad A -2

Mae'r argymhellion ar gyfer undebau credyd Cymru yn cynnwys:-

-  Blaenoriaethu cyflwyniad cardiau talu electroneg megis PayPoint, cardiau debyd cyn daliad a chyfrif cyfredol Undeb Credyd
-  Adolygu sut i wneud y defnydd mwyaf defnyddiol o'r amser gwerthfawr a roddir gan wirfoddolwyr
-  Cefnogi datblygiad hunaniaeth undeb credyd Cymraeg unedig

Argymhellion ar gyfer sefydliadau masnach undebau credyd a chefnogaeth yn cynnwys:-

-  Sicrhau bod lefelau priodol o gyfleoedd hyfforddiant achrededig ar gael
-  Adolygu Gwirio Iechyd a'i gysylltu gydag anghenion iechyd, bylchau trefn lywodraethol a.y.b.

Argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol Cymraeg:-

-  Sefydlu cynlluniau didyniad cyflogres uniongyrchol ac annog eu gweithwyr i ddod yn aelodau o undeb credyd
-  Annog staff i ddod yn wirfoddolwyr ac aelodau o'r Bwrdd, cynorthwyo i farchnata rhannu eiddo ar gyfer mannau casglu
-  Cynnig eiddo masnachol gwag ar dermau ffafriol
-  Annog tenantiaid i ddod yn aelodau o undebau credyd

Argymhellion ar gyfer cymdeithasau tai a sefydliadau partneriaeth eraill:-

-  Annog tenantiaid i ymuno ag undebau credyd, annog swyddogion tai a staff eraill i ymwneud â rhedeg undebau credyd fel aelodau, gwirfoddolwyr a chyfarwyddwyr
-  Darparu cyfleuster ar gyfer aelodau i wneud taliadau i'r undeb credyd trwy swyddfeydd tai a gyda'u rhent
-  Cynnig rhannu eiddo ac adnoddau swyddfa i undebau credyd
-  Gweithio mewn partneriaeth gydag undebau credyd a Moneyline



Templed er mwyn cynyddu aelodaeth mewn cymunedau incwm isel

Atodiadau B-D

Atodiad B

Strategaeth ar gyfer cynyddu aelodau o gymuned incwm isel penodol a chynyddu gallu'r Undeb Credyd i ymdopi â gofyniad ychwanegol am fenthyciadau

Gweithredu'r Strategaeth	Gweithrediadau	Amserlen	Cost	Cyfranogwyr
Cyd-lynu	Undeb Credyd i:- - Sefydlu grŵp llywio - Nodi un ardal ddaearyddol	Ebrill – Mai 2 fis	Mewn nwyddau:- Ystafell gyfarfod/lluniaeth Amser staff asiantaeth	Undeb Credyd Cymunedau yn Gyntaf Grwpiau cymunedol Trigolion
Monitro ac Asesiad	- Sefydlu gwybodaeth gwaelodlin - Nifer o aelodau, cynilo & benthyciadau. dyledion drwg, tramgwydddaeth benthyciad - Ail asesu gwybodaeth gwaelodlin ar y diwedd	Dechrau a Diwedd y broses	Amser staff Undeb Credyd	Undeb Credyd a'r asiantaethau a enwir uchod
Gwerthuso	- Nodi'r pethau positif am y broses - Nodi'r gwelliannau i'r broses	Diwedd y Broses	Hwylusydd. Lleoliad/ lluniaeth	Undeb Credyd a'r asiantaethau a enwir uchod
Sicrhau buddsoddiad	- Nodi arian asiantaethau - Ymgeisio am grantiau - Nodi cymorth mewn nwyddau	Ebrill– Medi 6 mis	Amser swyddog	Undeb Credyd a'r asiantaethau a enwir uchod



Atodiad B- 2

Yr hyn y mae benthycwyr ar-ian amgen yn ei wneud yn well - y strategaeth	Gweithrediadau	Amserlen	Cost Modelau i'w haddasu	Nodiadau
Cynnyrch hyblyg	- Datblygu benthyciadau tymor bur anwarantedig - Cynllunio, cyfieithu ac argraffu gwybodaeth a nwyddau newydd	Ebrill - Mehefin 2-3 mis	Dylunio - hyd at £1000 Cyfieithu - £200 Argraffu* - £1500-£2000	Mae'r undeb credyd yng Ngwynedd a Môn eisoes wedi datblygu'r cynnyrch yma yn y 12 mis diwethaf Angen cynhyrchu gwybodaeth newydd, roedd y trigolion eisiau'r taflenni fod yn ddisglair a lliwgar
Proses gyraeddadwy	- Sefydlu system gyflym ar gyfer prosesu benthyciadau a hysbysu aelodau	Ebrill - Mehefin 2-3 mis	Cost hyfforddi/ cefnogaeth	Mae gan Undeb Credyd yng Ngwynedd a Môn system rhoi benthyciad cyflym eisoes.
Hwylustod Buddion cymdeithasol	- Sefydlu manau casglu/ clybiau ar yr ystâd • Recriwtio gwirfoddolwyr lleol • Hyfforddi gwirfoddolwyr • Cydlynu & chefnogi gwirfoddolwyr • Hyrwyddo	Mehefin - Gorffennaf	Grwpiau Cymunedau yn Gyntaf/ cymunedol amser staff undeb credyd ac amser gwirfoddolwyr £3000 cost sefydlu pwynt casglu ar gyfer yr undeb credyd a rhent os oes angen	Cyd gyfarfod i'w drefnu yn Ebrill i gynllunio hyfforddiant ym Mehefin/Gorffennaf



Atodiad B - 3

Yr hyn y mae benthyccwyr arian amgen yn ei wneud yn well - y strategaeth	Gweithrediadau	Amserlen	Cost Modelau i'w haddasu	Nodiadau
	- Hysbysu asiantaethau'r UC- annog aelodaeth staff	Cyfredol - 12-18 mis		
	- Ymgymryd â dwy wythnos hyrwyddol y flwyddyn e.e. Medi ar gyfer y Nadolig, Chwef/Mawrth ar gyfer yr Haf • Cydlynu drws i ddrws • Rhoi taflenni i asiantaethau	Medi 2011 Ion/Chwef 2012		

Atodiad B-3

*Mae costau argraffu/cynhyrchu yn amrywio:

Taflen A4 wedi'i phlygu a'i hargraffu'n ddigidol mewn lliw llawn Cymraeg a Saesneg - Cost fesul 2000 uned = £320 + TAW

Mantais ffurf digidol yw'r gallu i newid y testun yn rhwydd

5000 x 4 o daflenni wedi'u hargraffu gyda'i gilydd- 20,000 cyfanswm litho, 4 proses lliw ddwy ochr = £749 + TAW

1000 x 2 taflen, wedi'u hargraffu gyda'i gilydd,- 2000 cyfanswm litho = £248 + TAW

Bathodynau enamel safon gorau

1000 @ 46p yr un + cost offeru £45, + £11.00 cludiant & TAW

Bathodynau enamel meddal

1000 @ 27 yr un + £45 cost offeru, + £11.00 cludiant & TAW

Argraffu bathodynau resin epoksi

1000 @ 46p yr un + £80 gosod + £11.00 cludiant & TAW

Torch allwedd taleb troli enamlog un ochr

1000 @ 33p yr un + £55 cost offeru + £11 cludiant & TAW

Magnetau argraffiad gwastad

1000 @ 50p yr un _ £80 costau gosod, + £11.00 cludiant & TAW



Atodiad B - 3

Canlyniadau cynnydd mewn aelodau incwm isel	Gweithrediadau	Amserlen	Cost	Nodiadau
Cynnydd mewn gofyniad am fenthyciadau anwarantedig tymor byr	- Recriwtio cynilwyr in cwm canolig gan dargedu grwpiau incwm canolig megis y Rotari	Cyfredol	Amser staff Undeb Credyd	Undeb Credyd a'r asiantaethau a restrir
Cynnydd mewn gofyniad am fenthyciadau anwarantedig tymor byr	- Recriwtio cynilwyr proffil uchel	Cyfredol		



Atodiad C – Llythyr at y Cadeirydd/Prif Weithredwr

Annwyl

Undeb Credyd Gogledd Cymru

Fel rydych yn ymwybodol, sefydliadau cydfuddianol cydweithredol a reolir gan eu haelodau yw undebau credydau. Maent yn cynnig ffyrdd rhwydd o gynilo a benthyciadau ar gost isel ac maent hefyd yn cynnig cyfrifon banc cyfredol ar draws Gogledd Cymru. Mae gan Undebau Credyd rôl sylweddol i chwarae yng nghyswllt cynhwysiad ariannol- creu gwasanaethau ariannol sy'n agored i bawb ar raddfa fforddiadwy a chyfeirio at asiantaethau eraill.

Fe'u hystyrir yn draddodiadol fel 'banc y dyn tlawd' oherwydd eu bod yn targedu cymunedau incwm isel. Fodd bynnag, dengys ymchwil diweddar nad yw undebau credyd bob amser yn cyrraedd y tlotaf oddi fewn i'n cymunedau ac mewn llawer ardal mae yna gysylltiadau cryf gyda benthycwyr arian amgen sy'n codi llog uchel e.e. 189% ac uwch.

Er mwyn cystadlu â benthycwyr arian amgen yn gweithredu mae'n rhaid:-

1. Cynnig cynnyrch hyblyg - benthyciadau anwarantedig, tymor byr o symiau amrywiol
2. Darparu proses cyraeddadwy - proses dod i benderfyniad cyflym
3. Cynnig gwasanaethau cyfleus - trwy fod mor agos i gymunedau incwm isel â phosib
4. Darparu buddion cymdeithasol - cefnogaeth oddi fewn i berthynas o ymddiriedolaeth, gofal a pharch

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Undeb Credyd yng Ngwynedd wedi coethi a datblygu gwasanaeth gan gynnig cynnyrch hyblyg, er nad yw hyn, ar hyn o bryd yn wybodus i bawb, a phroses penderfynu'n gyflym sydd 'orau ar gyfer aelodau'.

Mae angen cefnogaeth fodd bynnag gyda chyfleustra a budd cymdeithasol. Mae Undebau Credyd yn brofiadol mewn sefydlu pwyntiau casglu cymunedol a chynnal ymgyrchion hyrwyddo lleol a gellir cryfhau hyn trwy weithio yn agos gyda mudiadau fel chi sydd eisoes ar steipan ddrws unigolion, yn eu cartrefi ac yn gweithio gydag hwy o safbwynt ymddiriedolaeth, parch a gofal.

Yn ymarferol gall hyn olygu:-

1. Annog staff, rheolwyr ac aelodau o'r bwrdd i ymaelodi gyda'r Undeb Credyd a chysidro sefydlu, os nad yw hyn mewn lle yn barod, a hyrwyddo sustem di-ddwytho cyflog
2. Hyrwyddo'r Undeb Credyd trwy gyfeirio at yr Undeb Credyd fel a phan yn briodol
3. Yn ystod unrhyw ymgyrch dosbarthu taflenni - eu dosbarthu i glientau

Croesawn y cyfle i drafod ymhellach a chyfrannu i unrhyw weithgaredd hyrwyddo mewnol megis cyflwyniadau, gweithdai staff, cyfarfodydd tim, digwyddiadau i gwsmeriaid ayyb.

Edrychwn ymlaen at glywed gennych yn fuan a chyd-weithio gyda chi yn y dyfodol agos.

Yn gywir



Atodiad D

Llythyr at berson adnabyddus gyda chysylltiadau lleol

Annwyl

Her yr Undeb Credyd

Mae undebau credyd yn sefydliadau cyd feddiannol, cydweithredol a feddiannir ac a reolir gan yr aelodau er budd y gymuned. Yn bennaf mae pobl yn cyd gynilo a benthycu i'w gilydd gan ddarparu dewis amgen, moesegol yn y byd ariannol ac sy'n rhan o fudiad undebau credyd byd eang.

Maent yn cynnig ffyrdd hawdd o gynilo a chynnig benthyciadau cost isel `ARP 12.7% - 26.8% arferol), didifend ar gyfer aelodau ac maent hefyd yn cynnig cyfrifon banc cyfredol ar draws Gogledd Cymru.

Mae Undebau Credyd yn chwarae rhan sylweddol mewn cynhwysiad ariannol – gan greu gwasanaethau ariannol sydd ar gael i bawb ar gyfradd fforddiadwy. Er enghraifft gallasai benthyciad £300 gyda benthyciwr carreg drws gostio £513 (ARP 189% arferol), ble y byddai benthyciad £300 gydag undeb credyd yn costio £338 (ARP 26.8% arferol).

Mae Undebau Credyd yn bodoli ar draws Cymru ac ar gyfer cryfhau a dod yn fwy cynaliadwy, mae undebau credyd angen cynnydd mewn cynilion a phroffil uwch. Rydym yn ymgeisio i gysylltu â chymaint â phosib o unigolion oddi fewn i feysydd proffil uchel e.e. rygbi, actio, comedi, opera, cerddoriaeth pop a.y.b. i ofyn iddynt:



Ymuno ag undeb credyd yn ardal eu mebyd a chynilo gyda hwy (gweler y rhestr atodol)



Cefnogi pobl eraill o'r un maes i ymuno ag undeb credyd yn ardal eu mebyd

Y weledigaeth yw creu cefnogaeth i'r mudiad undebau credyd yng Nghymru gan undebau proffil uchel eraill.

Er mwyn monitro datblygiad y gwaith, os ydych yn derbyn y her, a fydddech cystal a'n hysbysu ar info@sylfaencymunedol.org

Diolch yn fawr iawn.

Yn gywir



Undebau Credyd yng Nghymru

Cysylltwch â Llinell Gymorth Undebau Credyd Cymru ar 0800 4960865 neu ebost financialinclusion@wales.gsi.gov.uk.

Undebau Credyd yng Nghymru

Cysylltwch â Llinell Gymorth Undebau Credyd Cymru ar 0800 4960865 neu ebost financialinclusion@wales.gsi.gov.uk.

Undeb Credyd Bwrdeistref Merthyr Tydfil Cyf.

19 Park Place

Merthyr Tydfil

CF47 0DJ

Ffôn: 01685 377888

Ebost: delyth@mtbcu.org.uk

Gwefan: Merthyr Tydfil Borough Credit Union Ltd. (External link)

Dragon Savers Credit Union Ltd.

107 Stryd Bute

Treorci

CF42 6AU

Ffôn: 01443 777043

Ebost: stonemanc@dragonsavers.org

Gwefan: Dragon Savers Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Sir Fflint Gyfan Cyf.

27 Stryd Fawr

Treffynnon

CH8 7TE

Ffôn : 01352 715555

Ebost: tecwyn@flintshire-creditunion.co.uk

Bethyciadau a Chynilion Abertawe (LASA) Cyf.

10 Calvert Terrace

Abertawe

SA1 6AR

Ffôn: 01792 643632

Ebost: query@lasacreditunion.org.uk

Ebost: manager@lasacreditunion.org.uk

Gwefan: Loans and Savings Abertawe (LASA) Ltd. (External link)

Undeb Credyd Casnewydd Cyf.

5 Market Arcade

Casnewydd

NP20 1FS

Ffôn: 01633 214913

Ebost: info@newportcreditunion.co.uk

Gwefan: Newport Credit Union Ltd. (External link)



Undeb Credyd Castell Nedd Talbot Cyf.

41-43 Windsor Road

Castell Nedd

SA11 1NG

Ffôn: 01639 632100

Ebost: mikeread@nptcu.co.uk

Gwefan: Neath Port Talbot Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Cynilwyr Gydol Oes Pen-y Bont ar Ogwr Cyf.

Canolfan Dysgu Gydol Oes

Murfield Close

Sarn

Pen-y Bont ar Ogwr

CF32 9SW

Ffôn: 01656 729912

Ebost: nicola@blscu.co.uk

Gwefan: Bridgend Lifesavers (External link)

Undeb Credyd Credcer Cyf.

7 Bridge Street

Grosvenor Hill

Ceredigion

SA43 1HY

Ffôn: 01239 621408

Ebost: admin@credcercreditunion.co.uk

Gwefan: Credcer Credit Union Ltd. (External link)

Gateway Credit Union Ltd.

21 Commercial Street

Pontypool

NP4 6JQ

Ffôn: 01495 750020

Ebost: john@gatewaycu.co.uk

Gwefan: Gateway Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Caerdydd Cyf.

Neuadd y Sir

Atlantic Wharf

Caerdydd

CF10 4UW

Ffôn: 029 20 872373

Ebost: info@cardiffcu.com

Gwefan: Cardiff Credit Union Ltd. (External link)



Undeb Credyd Smart Money Cyf.

Abacus House
44 Windsor Street

Caerffili

CF83 1FW

Ffôn: 029 20 883751

Ebost: info@smartmoneycreditunion.co.uk

Gwefan: Smart Money Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Robert Owen (Sir Drefaldwyn Cyf

26 Market Street

Y Drenewydd

SY16 2PD

Ffôn: 01686 623741

Ebost: romcul@romcul.co.uk

Gwefan: ROMCUL (External site)

Undeb Credyd Brycheiniog a'r Cylch Cyf.

9 Cwrt Avon

15-16 Stryd y Castell

Brycheiniog

LD3 9BU

Ffôn: 01874 620104

Ebost: info@breconanddistrictcreditunion.co.uk

Gwefan: Brecon and District Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Marches Cyf.

The Old Police Station

1 Market Hall Street

Kington

Henffordd

HR5 3DP

Ffôn: 01544 231926

Ebost: mcukington@kc3.co.uk

Gwefan: Marches Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Haven Cyf.

19 Stryd Siarl

Aberdaugleddau

SA73 2AA

Ffôn: 01646 694080

Ebost: admin@mhcu.freemove.co.uk

Gwefan: Haven Credit Union Ltd. (External link)



Undeb Credyd St. Therese Cyf.

40 Ffordd Fictoria

Port Talbot

SA12 6AD

Ffôn: 01639 885752

Ebost: peter.reynolds21@btopenworld.com

Undeb Credyd Bargoed Aberbargoed a Gilfach (BAG) Cyf.

47 Commercial Street

Aberbargoed

Caerffili

CF81 9BT

Ffôn: 01443 838605

Ebost: bagcredunion@aol.com

Undeb Credyd Cymuned Islwyn Cyf

Ffordd Wesley

Coed Duon

NP12 1PP

Ffôn: 01495 222832

Ebost: info@islwyncu.co.uk

Gwefan: Islwyn Community Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Red Kite Cyf.

20 Stryd y Farchnad

Llanfair ym Muallt

LD2 3EA

Ffôn: 01982 551000

Ebost: enquiry@redkitecreditunion.co.uk

Gwefan: Red Kite Credit Union Ltd. (External link)

Undeb Credyd Save Easy (Llanelli a'r Cylch) Cyf

6-8 Stryd y Bont

Llanelli

SA15 3UF

Ffôn: 01554 770867

Ebost: saveeasy@btopenworld.com

Undeb Credyd Dyffryn Llynfi Cyf.

15a Stryd Talbot

Maesteg

Penybont ar Ogwr

CF34 9BW

Ffôn: 01656 731392

Ebost: llynficrodit@tiscali.co.uk

Gwefan: Llynfi Valley Credit Union Ltd. (External site)



Undeb Credyd Gogledd Cymru- unwyd yn ddiweddar
Gwefan: northwalescu.co.uk

Mae'r swyddfeydd yn cynnwys :-

51 Stryd y Brenin

Wrecsam

LL11 1LA

Ffôn: 01978 266843

Ebost: info@wrexhamcu.co.uk

Gwefan: Wrexham County Borough Credit Union Ltd. (External link)

144 Ffordd Conwy

Cyffordd Llandudno

Conwy

LL31 9ND

Ffôn: 01492 580028

Ebost: information@llandudnocu.co.uk

Gwefan: Llandudno and District Credit Union Ltd. (External link)

41 Stryd Llyn

Caernarfon

Gwynedd

LL55 2AE

Ffôn: 01286 678686

Ebost: info@yllechencu.co.uk

Gwefan: Y Llechen Credit Union Ltd. (External link)

17-19 Stryd Bodfor

Rhyl

LL18 1AS

Ffôn: 01745 361274

Ebost: enquiries@cccu.co.uk

19 Stryd y Bont

Dinbych

LL16 3LF

Ffôn: 01745 817444

Ebost: info@caledfryncu.co.uk

Gwefan: Caledfryn Credit Union Ltd. (External link)

